

Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Awst 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddTai

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddTai@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddLlywLTai](https://twitter.com/SeneddLlywLTai)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Awst 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddTai

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
John Griffiths AS**
Llafur Cymru



Mabon ap Gwynfor AS
Plaid Cymru



Jayne Bryant AS
Llafur Cymru



Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sam Rowlands AS
Ceidwadwyr Cymreig



Carolyn Thomas AS
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Alun Davies AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	7
1. Cyflwyniad	10
Cefndir	10
Cylch gorchwyl	10
Casglu tystiolaeth	11
2. Darparu safleoedd	12
Safleoedd awdurdodau lleol	12
Safleoedd tramwy	18
Safleoedd preifat	21
Ein barn ni	23
3. Fframwaith ar gyfer darparu safleoedd awdurdodau lleol	26
Atebolrwydd	27
Adolygiad o'r fframwaith	30
Ein barn ni	31
4. Ewyllys wleidyddol	34
Ein barn ni	38
5. Asesiadau llety	40
Ein barn ni	44
6. Ariannu	46
Ein barn ni	48
7. Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd	50
Ein barn ni	54
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.....	55

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	57
Gwybodaeth Ychwanegol.....	57

Rhagair y Cadeirydd

Mae gan Gymru gyfle i gywiro gwahaniaethu ac anfantais, sydd wedi bodoli ers amser maith, drwy ddarparu safleoedd digonol sy'n ddiwylliannol-briodol ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae ganddi eisoes fframwaith deddfwriaethol a pholisi clir sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod safleoedd yn cael eu darparu lle mae'r angen yn bodoli, ond yn aml canfyddir bod diffyg cyflawni yn hyn o beth. Mae'r fframwaith wedi bod ar waith ers bron i ddegawd, ond ychydig iawn o gynnydd a welsom o ran datblygu safleoedd diwylliannol-briodol newydd.

Rydym hefyd wedi gweld Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd Llywodraeth y DU yn cael ei chyflwyno'n ddiweddar, ac mae hon yn gwneud gwersylloedd diawdurdod yn drosedd. Gallai hyn gael effaith anghymesur ar y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr o ystyried y diffyg safleoedd awdurdodedig yng Nghymru.

Gyda hyn mewn golwg, aethom ati i edrych ar effeithiolrwydd y fframwaith presennol; yr heriau i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru o ran darparu llety digonol ac addas ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a goblygiadau'r Ddeddf newydd.

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom am achosion lle'r oedd pobl wedi bod yn aros ers dros 20 mlynedd am lain ar safle awdurdod lleol. Mae rhai teuluoedd wedi ceisio diwallu eu hanghenion eu hunain drwy brynu tir i ddatblygu eu safleoedd preifat eu hunain, ond yn aml maent yn wynebu brwydr gostus gydag ychydig iawn o gymorth i lywio'r system gynllunio.

Gwelwyd ein hunain bod safleoedd awdurdodau lleol yn aml mewn lleoliadau anaddas, ymhell o gyfleusterau ac wrth ymyl ffyrdd prysur ac ardaloedd diwydiannol. Mae hefyd ddiffyg sylweddol o ran darpariaeth dros dro yng Nghymru, gyda dim ond dwy lain tramwy ar gael yn ôl y data cyfredol. Mae hyn yn llawer llai na'r disgwyl o ran diwallu anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn cyfyngu ar eu gallu i fyw bywyd crwydrol.

Rydym yn llwyr werthfawrogi'r pwysau a'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth geisio dod o hyd i safleoedd addas sy'n diwallu'r angen. Yn ein barn ni, fodd bynnag, mae'n annerbyniol bod pobl yn byw ar safleoedd gorlawn y mae dirfawr angen eu hatgyweirio, a heb y cyfleusterau priodol ar gyfer plant neu'r henoed. Mae hefyd yn destun pryder bod ymgysylltu â'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynghylch cynnal a chadw, adnewyddu, a datblygu safleoedd newydd yn aml iawn yn ddim ond gweithredoedd symbolaidd. Wedi'r cyfan, cartrefi a bywydau pobl sydd dan sylw yma, a dylai eu lleisiau hwy fod wrth wraidd trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch darparu llety.

Mae'n amlwg bod ymgysylltu â, a dealltwriaeth o anghenion diwylliannol cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddiffygiol ymhlith y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau. Ymddengys mai ychydig iawn o atebolrwydd sydd o ran methiant i gyflawni dyletswyddau statudol, neu ymdrechion difrifol i gydweithio rhwng awdurdodau lleol. Dyma rai o'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw os ydym am weld gwelliannau o ran argaeledd ac addasrwydd safleoedd yng Nghymru. Oni bai bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y fframwaith yn cael ei gyflawni'n effeithiol, gan newid agweddau o fewn llywodraeth leol a'r gymuned ehangach ar yr un pryd, rydym yn annhebygol o weld newid gwirioneddol nac arwyddocaol.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith yn y maes hwn, ac edrychaf ymlaen at graffu ar y cynnydd a wneir yn hyn o beth yn y blynyddoedd i ddod.

Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd sy'n briodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau i liniaru'r heriau o ddod o hyd i dir addas ar gyfer llety safleoedd i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
..... Tudalen 24
- Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ac awdurdodau lleol unigol i ddatblygu rhwydwaith o ddarpariaeth ddarfodol, a sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau cynnydd..... Tudalen 25
- Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniadau ar gyfer gwasanaeth cynghori annibynnol a dibynadwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys gofynion cyllido, adnoddau a sgiliau. Tudalen 25
- Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai.
..... Tudalen 32
- Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Ddeddf Tai yn effeithiol o ran darparu safleoedd addas ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Felly, dylai nodi sut y mae'n bwriadu tynhau'r modd y mae'n monitro gweithrediad y Ddeddf. Tudalen 32
- Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut a phryd y bydd yn defnyddio ei phwerau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai. Tudalen 32
- Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer gwerthuso pa mor effeithiol yw Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o ran helpu i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr..... Tudalen 32
- Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer y camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sydd eisoes ar y gweill.
..... Tudalen 32

Argymhelliad 9. Wrth adolygu'r canllawiau ar safleoedd, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn sicrhau bod anghenion dylunio a lleoliad cymunedau yn cael eu hadlewyrchu'n well yn y canllawiau.

..... Tudalen 32

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r holl ganllawiau sy'n ymwneud â darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Tudalen 33

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y cymorth dysgu a datblygu a fydd yn cael ei roi i aelodau etholedig awdurdodau lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dylai hyn gynnwys manylion am: pwy fydd yn cael yr hyfforddiant; amserlenni; sut y caiff ei ariannu a'i ddarparu; ac a fydd yn ofyniad statudol i ymgymryd â'r hyfforddiant. Tudalen 39

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu gwerthuso'r effaith y bydd yr hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig awdurdodau lleol yn ei chael ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Tudalen 39

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cynghorwyr cymuned yn yr ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddarparu hyfforddiant i aelodau etholedig awdurdodau lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

..... Tudalen 39

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau, ar wahân i'r rhai yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol, y bydd yn eu cymryd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y gymuned ehangach o ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

..... Tudalen 39

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ai'r broses bresennol ar gyfer Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Tudalen 45

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu sut y gellir gwella gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y broses o gynnal asesiadau llety, gan gynnwys i ba raddau y mae'r mesurau a'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol wedi gwneud gwahaniaeth. Tudalen 45

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa broses sydd ar waith i fonitro'r Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar sail Cymru gyfan er mwyn cael dealltwriaeth o'r anghenion llety ar lefel genedlaethol yn ogystal ag ar lefel leol. Tudalen 45

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ehangach o sut mae'r cyllid ar gyfer datblygu safleoedd yn ymwneud â'r gofynion o ran safonau safleoedd. Tudalen 49

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob opsiwn posibl ar gyfer ariannu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys a ddylid ehangu'r meini prawf ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd er mwyn i awdurdodau lleol allu prynu tir ar gyfer datblygu safleoedd newydd a sut y gellid defnyddio cyllid i gefnogi datblygiad safleoedd preifat. Tudalen 49

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i ddarparu lleiniau tramwy ledled Cymru cyn toriad yr haf yn 2023. Tudalen 54

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda'r heddlu a sefydliadau partner i gyfathrebu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr am unrhyw newidiadau a ragwelir i gynlluniau i orfodi Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yng Nghymru. Tudalen 54

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. Yn ein cyfarfod ar 9 Mawrth 2022, gwnaethom ystyried llythyr¹ gan Teithio Ymlaen yn codi pryderon am y diffyg cynnydd o ran darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf Tai") yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu'r angen i ddarparu safleoedd ar gyfer cartrefi symudol yn eu hardal, a phan nodir yr angen hwnnw, rhaid i awdurdod lleol arfer ei bwerau o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("y Ddeddf Cartrefi Symudol") i ddarparu'r safleoedd hynny.
2. Mae'r fframwaith statudol i hyrwyddo'r gwaith o gynllunio a datblygu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi bod ar waith ers bron i ddegawd. Fodd bynnag, nid yw'n glir pa mor effeithiol yw'r fframwaith o ran sicrhau bod digon o safleoedd diwylliannol-briodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Yn ogystal, cafodd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd Llywodraeth y DU ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill 2022. Mae'n rhoi pwerau i'r heddlu atafaelu cerbydau ar wersylloedd diawdurdod.
3. Cytunwyd yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth i gynnal yr ymchwiliad amserol hwn i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion a chasgliadau ein gwaith.

Cylch gorchwyl

4. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd ystyried y canlynol:
 - A yw fframwaith presennol Llywodraeth Cymru yn sicrhau digon o safleoedd preswyl a thramwy sy'n ddiwylliannol-briodol i Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru.
 - I ba raddau y mae awdurdodau cynllunio lleol a Sipsiwn a Theithwyr yn llwyddo i gydweithio, fel yr argymhellir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddod o hyd safleoedd cynaliadwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
 - I ba raddau y mae Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion llety y gymuned teithwyr.

¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Papur 15, 9 Mawrth 2022

- Archwilio'r heriau posibl i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru o ran darparu safleoedd llety addas a digonol ar gyfer cymunedau teithwyr.
- Archwilio beth fydd goblygiadau'r darpariaethau ym Mil Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 Llywodraeth y DU.

Casglu tystiolaeth

- 5.** Casglwyd tystiolaeth ysgrifenedig gennym a thrwy gynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid.
- 6.** Trefnodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd hefyd gyfres o weithgareddau ymgysylltu ag aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru, gan gynnwys ymweliadau â safleoedd, trafodaethau bord gron a chyfweliadau un i un dros y ffôn. Ceir crynodeb o'r gwaith ymgysylltu ar ein gwefan.
- 7.** Clywsom gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (y Gweinidog), ar 22 Mehefin 2022.
- 8.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad.
- 9.** Gellir gweld manylion yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

2. Darparu safleoedd

10. Roedd y darlun cyffredinol a welwyd drwy gydol yr ymchwiliad hwn yn un o'r cynnydd cyfyngedig iawn a wnaed gan awdurdodau lleol o ran darparu safleoedd preswyl a thramwy sy'n diwallu anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Clywsom hefyd fod llawer o deuluoedd wedi ceisio diwallu eu hanghenion eu hunain drwy brynu tir i ddatblygu eu safleoedd preifat eu hunain, ond eu bod yn ei chael yn anodd cael caniatâd cynllunio.

Safleoedd awdurdodau lleol

11. Mae'r Ddeddf Tai yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i ddarparu safleoedd lle gellir rhoi cartrefi symudol arnynt. Rhaid i'r asesiad o anghenion llety gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 102(3). Os yw'r asesiad cymeradwy yn nodi angen i ddarparu safleoedd, rhaid i'r awdurdod arfer ei bwerau o dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 "...i'r graddau y bo'n angenrheidiol i gwrdd â'r anghenion hynny."

12. Clywsom mai anaml iawn yw'r adegau pan y bydd lleiniau'n dod ar gael ar safleoedd awdurdod lleol.² Yn ôl Sipsiwn a Theithwyr Cymru, mae yna unigolion sydd wedi bod ar y rhestr aros am lain awdurdod lleol ers dros 20 mlynedd. Gwnaethant esbonio pan ddaw llain ar gael:

*"we suddenly see a huge increase in the work that we have, the number of phone calls coming into our offices from individuals who are effectively homeless, living on their friends' and families' plots in conditions that are overcrowded, who then want to enter the homelessness system officially and be in hostels because that's the only way that they will be able to lift themselves to the place where they'll be able to access that pitch that's becoming available. But, of course, there's a huge number of people who need and want to do this each time a pitch becomes available, and that could be every 18 months to two years. Sometimes it's been more than two years between pitches becoming available."*³

13. Er gwaethaf y galw am leiniau awdurdodau lleol, un thema gyffredin yn y dystiolaeth a gafwyd oedd lleoliad anaddas safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sy'n aml yn agos at Ffyrdd A a llygredd, a heb unrhyw gysylltiad â'r amgylchedd naturiol. Hefyd, maent wedi'u lleoli'n aml ar gyrion cymunedau, mewn ardaloedd diwydiannol lle nad yw

² Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 18 Mai 2022

³ Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 18 Mai 2022

ansawdd yr aer a'r agosrwydd at y gymuned ehangach, ysgolion, siopau a chyfleusterau yn ddigonol.⁴

14. Dywedodd Martin Gallagher, Teithiwr Gwyddelig ac academydd, y canlynol wrthym:

"The provided accommodation that's given by the council is just a big yard of concrete and it's really far and away from the relationship that we have with nature and wanting to be outdoors in a healthy environment..."⁵

15. Aeth ymlaen i ddisgrifio'r safle yr oedd yn arfer byw arno:

"The site I lived on had no safe passageway to any local services, any shops and stuff like that. We had to cross the A494. Back then it was a 70 mph dual carriageway with four lanes. We had to cross that as kids. And the only other way was under a bridge that would be flooded quite often. So [...] our safety, the rights of residents to live healthily, are being sacrificed for the interests of political people..."⁶

16. Clywsom mai un o'r rhesymau dros leoliad anaddas y safleoedd hyn yw gwrthwynebiad lleol i ddatblygu'r safleoedd gerllaw iddynt. O ganlyniad, mae safleoedd yn cael eu datblygu ar dir annymunol ger traffyrdd, drws nesaf i systemau rheoli gwastraff.⁷ Cytunodd yr Athro Jo Richardson, Prifysgol De Montfort, â hyn, gan nodi:

"Only in the most desperate of circumstances would you want to be located in some of those areas. And it is because it's the patch of land that had the least hostility, that could be developed, rather than somewhere that was going to make a decent home."

17. Dyfynnodd BASW Cymru newyddiadurwr ymchwiliol a alwodd leoliad safleoedd cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar hyn o bryd yn hiliaeth amgylcheddol. Dywedodd wrthym fod rhaid defnyddio'r holl ysgogiadau sydd gennym yng Nghymru i newid hynny, a pheidio ag ailadrodd yr hyn sydd gennym yn barod. Un ateb i hyn fyddai "gwrando ar y gymuned, am yr hyn sy'n iawn ac yn briodol iddynt."⁸

18. Tynnodd yr Athro Jo Richardson sylw hefyd at bwysigrwydd ymgysylltu ac ymgynghori â phreswylwyr. Er enghraifft, dywedodd bod ychwanegu lleiniau at safleoedd sy'n bodoli eisoes yn

⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 18 Mai 2022

⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 53], 18 Mai 2022

⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 18 Mai 2022

⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 54], 18 Mai 2022

⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 49], 9 Mehefin 2022

gwaethygu problem bresennol.⁹ Dywedodd sawl aelod o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrthym y byddai'n well ganddynt fyw ar safleoedd llai, boed yn safleoedd awdurdod lleol neu breifat. Ategwyd hyn gan Gyngor Sir Gâr mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

"Our experience of provision on both private and local authority sites is that smaller sites tend to work better, both for the settled community and the Gypsies / Travellers themselves."¹⁰

19. Fodd bynnag, mae gweithwyr cymorth a phlant Teithwyr wedi codi pryderon gyda'i swyddfa ynghylch hygyrchedd safleoedd a diffyg mynediad at wasanaethau fel cyfleusterau chwarae, neu lwybrau cerdded diogel.¹¹

20. Roedd angen gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio sylweddol ar rywfaint o'r safleoedd a welsom ac y clywsom amdanynt. Yn ôl rhai cyfranogwyr, mae eu safle, a'r mynediad iddo, yn beryglus, gydag eraill yn egluro bod eu safle yn anaddas ac yn niweidiol i iechyd a llesiant preswylwyr. Clywsom hanesion anecdotaidd amrywiol a niferus am ddiffyg atgyweirio. Roedd hyn yn cynnwys nid yn unig ddirywiad yn y cyfleusterau presennol a rennir, sydd heb gael eu hadnewyddu ers degawdau, ond hefyd ddiffyg llwyr o gyfleusterau megis manau chwarae ar gyfer y plant. Soniodd eraill am broblemau gyda lleiniau anwastad, diffyg llwybrau troed, draeniau wedi'u blocio, plâu llygod, ac ystafelloedd ymolchi sydd wedi llwydo.

21. Eglurodd llawer o gyfranwyr, pan fydd materion cynnal a chadw yn cael eu hadrodd i'r awdurdod lleol, neu'r rhai sy'n gyfrifol am reoli safle, ei fod yn cymryd amser hir i weithredu unrhyw fesurau a gynigir i fynd i'r afael â'r materion hynny. Esboniodd un cyfranogwr, yn ystod cyfarfod gyda'i hawdurdod lleol, dywedwyd iddi nad yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal gwaith cynnal a chadw ar safleoedd o fewn yr un faint o amser ag sy'n ofynnol iddynt wneud hynny i dai sy'n eiddo i'r awdurdod lleol. Dywedodd hefyd fod y gwaith a wneir o'r safon adeiladu waethaf y gallwch chi feddwl amdani.

22. Dywedodd yr Athro Jo Richardson y canlynol wrthym:

"real need for councils and housing associations to invest properly in the sites they already have, not only for satisfaction and economic efficiency for residents, but because a well-managed site is more likely to have people saying, 'We are happy to have new sites being delivered; we can see that

⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 9 Mehefin 2022

¹⁰ [GRT.09 Cyngor Sir Gâr](#)

¹¹ [GRT.02 Comisiynydd Plant Cymru](#)

they're well managed, well run; residents are happy; it looks nice; it's part of the community."¹²

23. Cydnabu'r Gweinidog ei bod yn gwbl annerbyniol cael safleoedd wedi'u lleoli ger ffyrdd prysur ac yn amhriodol nad ydynt wedi'u lleoli'n agos at ysgolion.¹³ Fodd bynnag, mae'n credu y bydd cryfhau'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol presennol drwy Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol newydd Llywodraeth Cymru yn gwella'r sefyllfa mewn awdurdodau lleol, drwy gefnogi aelodau etholedig i ddeall anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar 7 Mehefin 2022 ac mae'n nodi y bydd lleisiau cymunedau teithwyr yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt erbyn 2030.¹⁴

24. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod angen i awdurdodau lleol gymryd cyfrifoldeb am adnewyddu safleoedd a darparu cyfleusterau ychwanegol megis manau chwarae.¹⁵

25. Yn ogystal, clywsom am y costau uchel sy'n wynebu preswylwyr ar safleoedd awdurdodau lleol, sydd bellach yn cael eu gwaethygu gan yr argyfwng costau byw. Dywedodd rhai o breswylwyr safleoedd wrthym fod yn rhaid iddynt dalu'r un cyfraddau trydan masnachol â'r busnesau a leolir yn yr ystadau diwydiannol wrth ymyl y safleoedd. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:

*"Rydym yn gweld mwy o deuluoedd yn byw ar fudd daliadau oherwydd y gost o fyw ar dir yr ALL. Er enghraifft y gost o fyw mewn carafán ar safle wedi ei rentu yw £720 y mis. Mae hyn yn cyfateb i fwy na rhentu tŷ o fewn y fwrdeistref. Ar ben hyn, mae Sipsiwn/Teithwyr yn gorfod talu cyfraddau ynni masnachol a ddim yn gallu hawlio trethi domestig. Oherwydd ei bod yn byw ar safle Awdurdod Lleol rhaid gadael yr eiddo am gyfanswm o 2 wythnos neu bydd y budd dal yn cael ei golli, sy'n mynd yn groes i arferion a thraddodiad byw bywyd symudol."*¹⁶

26. Dywedodd BASW Cymru wrthym nad oedd llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn gymwys i gael taliadau tanwydd gaeaf am eu bod yn defnyddio poteli nwy.¹⁷ Nid oedd gan y safleoedd y gwnaethom ymweld â nhw brif gyflenwad nwy, felly roedd preswylwyr yn dibynnu ar boteli nwy drud yn lle hynny.

¹² Cofnod y Trafodion [paragraff 44], 9 Mehefin 2022

¹³ Cofnod y Trafodion [paragraff 34], 22 Mehefin 2022

¹⁴ Llywodraeth Cymru, [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#), 7 Mehefin 2022

¹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 22 Mehefin 2022

¹⁶ [GRT.08 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful](#)

¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 40], 9 Mehefin 2022

27. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo partneriaeth gyda'r Sefydliad Banc Tanwydd yn ddiweddar, 'sydd nid yn unig yn dalebau ar gyfer mesuryddion talu ymlaen llaw ond hefyd ar gyfer oddi ar y grid, gan gynnwys mynediad at nwy ac olew Calor.' Aeth ymlaen i dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma, a Theithwyr yn gallu cael gafael ar gyngor a gwybod pa fudd-daliadau sydd ar gael, ond pwysleisiodd mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y cyngor hwnnw a'u bod yn cael yr holl grantiau y dylent fod â hawl iddynt.¹⁸

28. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) rai o'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran dod o hyd i safleoedd, yn enwedig wrth geisio nodi safleoedd a all fodloni yr holl safonau perthnasol.¹⁹ Un safon o'r fath yw y dylai safle fod yn addas ar gyfer datblygiad brics a mortar. Gyda phwysau sylweddol ar ddod o hyd i dir ar gyfer tai, mae CLILC yn nodi:

"if the site is suitable for bricks-and-mortar, then the price will go up to reflect that and there will be pressure to develop for residential purposes. So, this adds to the problem of trying to find suitable sites."²⁰

29. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn nodi ei fod yn ymwybodol bod llawer o awdurdodau cynllunio lleol yn cael anawsterau gyda chynigion ar gyfer safleoedd, yn enwedig yn y cam clustnodi, ac nad yw gwerthwyr tai a thirfeddianwyr yn fodlon cymryd rhan, fel ag y maent yn achos safleoedd preswyl, ac mae'n galw am rannu unrhyw arfer da i lywio gwelliannau i'r broses yn y dyfodol.²¹ Mae Cyngor Sir Gâr hefyd yn nodi diffyg amlwg o dirfeddianwyr preifat yn dod ymlaen â safleoedd ac yn cymryd rhan yn y broses.²²

30. Awgrymodd Garden Court Chambers y gallai defnyddio pwerau prynu gorfodol fod yn ffordd o ddiwallu'r angen am fwy o safleoedd.²³ Dywedodd Cyngor Caerdydd hefyd y dylid ystyried defnyddio'r holl dir sydd ar gael.²⁴

31. Dywedodd y Gweinidog wrthym y dylai'r ystâd gyhoeddus gyfan yng Nghymru, yn ogystal â thir preifat, fod ar gael i awdurdodau lleol eu hystyried fel lleoliadau posibl ar gyfer safleoedd:

¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 110], 22 Mehefin 2022

¹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 308], 9 Mehefin 2022

²⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 308], 9 Mehefin 2022

²¹ [GRT.01.Sefydliad.Cynllunio.Trefol.Brenhinol.Cymru](#)

²² [GRT.09.Cyngor.Sir.Gâr](#)

²³ [GRT.03.Garden.Court.Chambers](#)

²⁴ [GRT.10.Cyngor.Caerdydd](#)

*"if there's land that we own, or indeed other public bodies, often health and local authorities, then the local authority has got every right and opportunity to look at that land."*²⁵

32. Gwnaeth Garden Court Chambers hefyd y cynigion a ganlyn o ran sut y gellir symud ymlaen â'r gwaith o ddod o hyd i safleoedd:

"Sifting should be done on a more structured basis such is the importance of the considerations at stake including the public interest in reducing the need for road side encampments.

This may be then followed by further sifting by way of a comparative evaluation of all potential remaining locations; against the extent of need and how acute it is, rather than each location being eliminated in isolation of the wider picture.

Input from third parties into searching for suitable land, for example from the police where appropriate should also be on a structured basis.

Consideration of temporary permissions or long term tolerated sites that could be made permanent should be included in the search which may also be for a temporary period for example in advance of town extension areas.

All large scale housing development may be required to include space for a small family Travellers' site to encourage diversity and make it the norm.

The amount of land required to meet the land use requirements of Gypsies and Travellers in Wales is tiny in relation to the size of Wales. The amount spent on enforcement costs, year in year out, should be reviewed and the figure spent may then be used to justify use of compulsory purchase powers.

*There needs to be more incentive to find the necessary land. There could be more teeth. The Welsh Government may consider it appropriate to impose financial penalties – commensurate with enforcement costs that would otherwise be avoided - on those authorities who fail to comply with the duty."*²⁶

²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 22 Mehefin 2022

²⁶ GRT.03.Garden.Court.Chambers

Safleoedd tramwy

33. Mae diffyg safleoedd tramwy yng Nghymru yn fater a amlygwyd yn gyson yn y dystiolaeth a gafwyd. Mae dyletswydd benodol ar Lywodraeth Cymru i asesu anghenion Teithwyr nomadaidd a darparu safleoedd tramwy. Fodd bynnag, yn ôl data o StatsCymru, dim ond dwy lain dramwy sydd yng Nghymru,²⁷ sy'n annigonol yn ôl CLILC²⁸.

34. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Bettina Hayles, aelod o'r gymuned Teithwyr Newydd, fod y diffyg safleoedd tramwy yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflogaeth pobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr:

*"travelling from one place to another is essential for many of the types of employment undertaken by GRT cultures – farm work and crop picking, making and selling of one's own work and working at events such as festivals and fairs."*²⁹

35. Clywsom hefyd am faterion yn ymwneud â gwahaniaethu a hiliaeth systemig mewn perthynas â mynediad i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr i safleoedd carafannau gwyliau a phreswyl.³⁰ Cyfeiriodd Martin Gallagher at Wynedd a'r gymhareb o dros 266 o wersylloedd carafannau gwyliau i un safle Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dywedodd y byddai'n cael ei wrthod fel Teithiwr Gwyddelig "oherwydd pwy ydym ni":

*"it's widely known that GRT people wouldn't even entertain going to these sites because they know that they're going to get knocked back and refused. So, it's disheartening seeing that disparity between the priority of the tourism economy and a person's well-being and welfare and residential rights."*³¹

36. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn nodi yn ei dystiolaeth ysgrifenedig mai'r prif faterion o ran darparu safleoedd tramwy yw "staffio, dod o hyd i ddigon o dir, rheoli'r safleoedd ond hefyd y broses gostus hirfaith o wneud cais am gyllid". Dylid edrych ar safleoedd tramwy ar sail ranbarthol, ond, yn ôl y cyngor mae "diffyg staff arbenigol a dim Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr ers cyn y pandemig wedi achosi diffyg brys."³²

37. Ategwyd hyn gan Teithio Ymlaen:

²⁷ Llywodraeth Cymru, [Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr](#), Ionawr 2022

²⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 283], 9 Mehefin 2022

²⁹ [GRT 13 Bettina Hayles](#)

³⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 21], 18 Mai 2022

³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 25], 18 Mai 2022

³² GRT 08 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

*"No local authorities have got together to successfully map, speak to Gypsies and Travellers, and plan transit sites. So, in a sense, of course it makes sense to have that regional approach rather than specific provision or planning for provision within individual local authorities. But the issue is it doesn't really matter where you place responsibility, it's not happening."*³³

38. Dywedodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru wrthym fod y broblem yn digwydd oherwydd bod grwpiau rhanbarthol sy'n edrych ar anghenion tramwy yn gweithredu ar wahân.

*"The key stakeholders—the Gypsy and Traveller community, the travelling community, the organisations that work with those communities—are not part of those meetings and those discussions."*³⁴

39. Dywedodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fod angen dod o hyd i 'ardaloedd' i'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr fyw ynddynt wrth iddynt deithio drwodd. Os nad yw'r 'ardaloedd' hynny ar gael: 'we will get unauthorised encampments, and we will then get local authorities, policing and landlords looking to move people on, and that does not feel right'.³⁵

40. Roedd gan CLILC farn ychydig yn wahanol ar ddarparu safleoedd tramwy, gan nodi mai penderfyniad i awdurdodau lleol yw a ddylid darparu gwerylloedd diawdurdod a reolir yn effeithiol yn hytrach na buddsoddi mewn safle tramwy na fydd efallai'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wedyn.³⁶ Nodwyd cafeat ar gyfer hyn, gan y byddai'n dibynnu ar ansawdd y data ar anghenion tramwy.

41. Clywsom mai un o'r rhesymau pam nad oes gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr unrhyw opsiynau eraill ar wahân i wersylloedd diawdurdod yw oherwydd bod maint y tir comin bellach yn llawer llai. Galwodd Bettina Hayles am ailagor a dadflocio'r lleoedd hyn fel ateb ar gyfer manau a safleoedd aros tymor byr a thymor canolig.³⁷

42. Yn ôl Teithio Ymlaen, mae'r Alban wedi edrych ar fapio'r safleoedd aros traddodiadol hynny ac maent yn edrych ar eu gwneud yn hygyrch eto. Croesawodd Teithio Ymlaen y fenter hon, gan ddweud:

"...not only does it value the traditional travelling patterns and stopping places, but it also brings back into the fore the cultural and rich landscape of travelling life. Because it's not all about people wanting to live on big local

³³ Cofnod y Trafodion [paragraff 93], 18 Mai 2022

³⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 95], 18 Mai 2022

³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 144], 9 Mehefin 2022

³⁶ Cofnod y Trafodion [298], 9 Mehefin 2022

³⁷ [GRT.13 Bettina Hayles](#)

authority sites; people don't really want to live like that, that's not how people lived traditionally, but that's been the— That's been what's on offer. But that isn't actually how people want to live when they're travelling, or even when they're not travelling."³⁸

43. Dywedodd Rhiannon Craft, myfyriwr ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd, mewn tystiolaeth ysgrifenedig: "authorised sites can reduce the number of unauthorised encampments, reducing costs and tensions". Tynnodd sylw hefyd at y modd y gellir trefnu lleoliadau dros dro wrth ochr y ffordd hefyd.³⁹

44. Yn ôl tystiolaeth a gasglwyd gan Sipsiwn a Theithwyr Cymru a Teithio Ymlaen drwy grŵp ffocws, nid yw safleoedd tramwy bob amser yn diwallu anghenion aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er enghraifft: "if people travelling through an area on their way to a show just need one night to stop and have access to some basic facilities, a transit site would not be appropriate." Roedd galwadau am gymysgedd safleoedd aros a safleoedd tramwy.

*"I think designated stopping places would be better with a mix of transit sites. Stopping places are more flexible and you can call ahead for facilities and would maybe just need to be seasonal. We are happy to pay for facilities!"*⁴⁰

45. Cam gweithredu allweddol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yw:

*"Creu rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy er mwyn hwyluso bywydau teithwyr, gan ystyried manau aros dros dro wedi'u negodi, fel y bo'n briodol."*⁴¹

46. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau pum llain yn y gogledd a phump yn y de. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cyfleoedd ar gyfer gwaith rhanbarthol ar hyn.⁴²

47. Mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd newydd eu ffurfio yn gyfrifol am gyflwyno Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer ardal y Cyd-bwyllgor Corfforaethol. Y nod yw ymdrin yn fwy effeithiol â materion trawsffiniol rhanbarthol fel tai a thrafnidiaeth, a darparu dull strategol o gynllunio ar raddfa fwy na'r hyn a welir mewn cynlluniau datblygu lleol unigol.

³⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 43], 18 Mai 2022

³⁹ [GRT 12 Rhiannon Craft](#)

⁴⁰ [Nodiadau grŵpiau ffocws gan Gypsies Travellers Wales a Teithio Ymlaen, 29 Mai 2022](#)

⁴¹ Llywodraeth Cymru, [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#), 7 Mehefin 2022

⁴² Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 22 Mehefin 2022

48. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol fod Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhoi cyfle i sicrhau cynllunio mwy cydgyssylltiedig ar gyfer safleoedd tramwy a materion trawsffiniol eraill.⁴³

49. Dywedodd CLILC bod heriau'n parhau o ran adolygu a chydlynu safleoedd tramwy ar sail ranbarthol, gan fod dyraniad safleoedd yn parhau ar lefel Cynllun Datblygu Lleol ac:

*"Mae'r cyfnodau adolygu gwahanol o fewn rhanbarth yn golygu bod darpariaeth llety teithiol yn anodd os nad yw'n amser i un awdurdod adolygu eu cynllun am nifer o flynyddoedd."*⁴⁴

Safleoedd preifat

50. Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod gormod o bwyslais wedi'i roi ar safleoedd awdurdodau lleol, ar draul darparu cymorth i deuluoedd ddatblygu eu safleoedd preifat llai eu hunain.

51. Cydnabu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fod angen i awdurdodau lleol "adnabod tir ar gyfer Sipsiwn/Theithwyr i brynu tir er mwyn darparu lle digonol ar dir gwyrdd." Yn ôl y cyngor, mae tir nad yw'n addas i'r diben yn aml yn cael ei "werthu'n rhad" sydd yn ei dro yn achosi pryder i deuluoedd sydd am berchen ar eu safle eu hunain.⁴⁵

52. Dywedodd un cyfrannwr wrthym fod materion yn ymwneud â chaffael tir addas yn aml wedi'u gwreiddio mewn gwahaniaethu. Fel enghraifft, esboniodd fod gwerthwyr tai yn esgus nad oes tir addas ar gael pan fydd teulu Sipsiwn yn gwneud ymholiadau.

53. Mae tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Sir Gâr yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau preifat am leiniau Sipsiwn a Theithwyr, a bod cyfran uchel ohonynt wedi bod yn llwyddiannus. Yn ôl y cyngor:

*"The success of private applications means that there is a growing understanding that resolving the need for additional pitches is about partnership between the Council and Gypsy and Traveller communities, with all partners contributing to the development and management of new pitches."*⁴⁶

⁴³ [GRT.01.Sefydliad.Cynllunio.Trefol.Brenhinol.Cymru](#)

⁴⁴ [GRT.11.Cymdeithas.Llywodraeth.Lleol.Cymru](#)

⁴⁵ [GRT.08.Cyngor.Bwrdeisdref.Sirol.Merthyr.Tudful](#)

⁴⁶ [GRT.09.Cyngor.Sir.Gâr](#)

54. Dywedodd Teithio Ymlaen wrthym hefyd dros y chwech neu saith mlynedd diwethaf bod mwy o leiniau wedi'u gwneud gan deuluoedd sy'n cael caniatâd cynllunio nag a wnaed erioed gan awdurdodau lleol. Yr awgrym yw efallai y byddai safleoedd teuluol yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus oherwydd bod tir ar gael yn fwy rhwydd o'i gymharu ag ardaloedd trefol.⁴⁷

55. Fodd bynnag, yn ystod ein digwyddiadau ymgysylltu ac ymweliadau safle, clywsom fod teuluoedd yn cael trafferth cael caniatâd cynllunio a'u bod yn aml yn gwario eu cynilion ar apelio yn erbyn y penderfyniadau hyn. Rhannodd y cyfranwyr y rhesymau y mae awdurdodau lleol wedi eu cynnig i gyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio. Roedd y rhain yn cynnwys problemau llifogydd posibl ar ffordd fynediad a allai atal mynediad gwasanaethau brys, a risgiau sy'n gysylltiedig â'r terfyn cyflymder ar brif ffyrdd ger mynedfeydd safleoedd. Gwnaethant hefyd esbonio bod caniatâd cynllunio, ar brydiau, wedi ennyn ymateb gelyniaethus ymysg rhai preswylwyr yn yr ardal leol.

56. Dywedodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru fod nifer o'u cleientiaid yn chwilio am fwy o gymorth i ddeall y system gynllunio a phrynu tir priodol i'w ddatblygu. Gwnaethant ddweud wrthym fod llawer o'r teuluoedd y maent yn gweithio gyda hwy wedi gwario degau o filoedd o bunnoedd yn ceisio cael caniatâd cynllunio ar gyfer safle. Cawsom y dystiolaeth a ganlyn gan aelod o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr:

"It's not anywhere near a fair system. Our communities need support from planning officers and specialists who can help us. The terminology is too much. It needs to be simpler so that people who have low literacy can understand it. The applications need to be simpler. There always seem to be an excuse for not granting site. It's such a long winded process and going to appeal is waste of money and time but our communities don't get the right advice so it just drags on and on."⁴⁸

57. Dywedodd CLILC wrthym ei bod yn bwysig bod cymunedau a theuluoedd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer safleoedd. Maent yn dweud bod awdurdodau lleol yn rhoi cyngor i deuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynghylch prynu tir cyn y broses gynllunio, gan nodi bod angen rheoli disgwyliadau i sicrhau nad yw tir amhriodol yn cael ei brynu nad yw'n mynd i fod yn addas mewn gwirionedd ar gyfer cynllunio neu ddatblygu.⁴⁹

⁴⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 18 Mai 2022

⁴⁸ [Nodiadau grŵpiau ffocws gan Gypsies Travellers Wales a Teithio Ymlaen, 29 Mai 2022](#)

⁴⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 267], 9 Mehefin 2022

58. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth ysgrifenedig, gwnaethant sôn am yr heriau o sicrhau ymgysylltiad ystyrllon ar yr adeg fwyaf dylanwadol. Maent nodi bod hon yn her “y bydd angen arbenigrwydd newydd ac adnoddau ychwanegol ar ei chyfer ac nid yw’r rheiny ar gael ar lefel genedlaethol na lleol”.⁵⁰ Mynegodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol bryderon tebyg, gan nodi prinder asiantau proffesiynol â gwybodaeth arbenigol.⁵¹

59. Fel rhan o’i Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gomisiynu rhaglen beilot tair blynedd i ddarparu cyngor annibynnol dibynadwy i bobl sy’n awyddus i ddatblygu safleoedd preifat. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

“We need a service provider who can assist with this. [...] We need to ensure that our advisory services are co-ordinated on this, so it will require more resource. But, also, we can look at the impacts of that once we’ve developed it, in terms of an impact framework, looking at the number of contracts, support offered and the results of this.”⁵²

60. Dywedodd hefyd fod angen i awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol a chadarnhaol, nid yn amddiffynnol, a bod angen lleihau rhwystrau.⁵³

61. Fodd bynnag, tynnodd CLILC sylw at y ffaith bod adrannau cynllunio awdurdodau lleol wedi cael eu dinoethi dros y degawd diwethaf, a bod sgiliau ac arbenigedd wedi cael eu colli, yn enwedig o ran ymgysylltu a hwyluso â’r cymunedau⁵⁴ Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er gwaethaf hyn, croesawodd CLILC ymrwymiad Llywodraeth Cymru:

“There are issues around expertise, capacity and resources, and I think it’s welcome that the race equality action plan is committed to not only investing and commissioning external partners to provide that support and facilitation, but also investing in training within local authorities.”⁵⁵

Ein barn ni

62. Mae gan Gymru gyfle i arwain y gwaith o greu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy’n briodol yn ddiwylliannol. Fodd bynnag, clywsom fod safleoedd awdurdodau lleol wedi’u lleoli mewn ardaloedd amhriodol, lle maent yn wynebu’r elyniaeth leiaf – wrth ochr ffyrdd peryglus; ymhell o wasanaethau ac amwynderau; heb unrhyw gyfleusterau ar

⁵⁰ GRT.11.Cymdeithas.Llywodraeth.Lleol.Cymru

⁵¹ GRT.01.Sefydliad.Cynllunio.Trefol.Brenhinol.Cymru

⁵² Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 22 Mehefin 2022

⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 22 Mehefin 2022

⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 347], 9 Mehefin 2022

⁵⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 349], 9 Mehefin 2022

gyfer plant na'r henoed. Mae taer angen gweithio gyda'r cymunedau i gael dealltwriaeth o'r hyn sy'n iawn ac yn briodol ar eu cyfer.

63. Rydym yn croesawu'r ymrwymïadau yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi y bydd yr ymrwymïadau hyn yn gwella'r sefyllfa ar eu pen eu hunain. Mae llawer o bobl yn byw ar safleoedd y mae taer angen gwneud gwaith cynnal a chadw arnynt neu eu hadnewyddu, ac mae preswylwyr am weld y gwelliannau hynny'n awr. Mae angen i awdurdodau lleol flaenoriaethu'r gwaith o gynnal a chadw safleoedd a sicrhau bod unrhyw waith adnewyddu yn cael ei wneud gan ymgynghori â'r rhai sy'n byw arnynt.

64. Rydym yn pryderu bod y meini prawf safle ar gyfer awdurdodau lleol yn peri problemau gan ei bod yn ofynnol iddynt nodi safleoedd sy'n bodloni'r holl safonau perthnasol. Un o'r rheini yw bod y tir yn addas ar gyfer datblygiadau brics a mortar, sy'n her ynddo'i hun oherwydd y galw mawr am dir ar gyfer datblygiadau tai. Felly, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar ffyrdd o liniaru'r heriau o ran dod o hyd i dir addas ar gyfer safleoedd teithwyr.

65. Rydym yn pryderu am y diffyg darpariaeth ddarfodol yng Nghymru a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddiwylliant cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u bywyd nomadaidd traddodiadol. Rydym yn croesawu ymrwymïad Llywodraeth Cymru i greu rhwydwaith cenedlaethol o safleoedd aros, gyda phum llain yn y gogledd a phump yn y de. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu a fydd hyn yn ddigon i ateb y galw.

66. Rydym hefyd yn gweld manteision dull rhanbarthol o ddatblygu darpariaeth ddarfodol briodol yng Nghymru. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi sut y bydd yn annog ac yn hwyluso mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol, drwy'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd newydd gael eu ffurfio, i gyflawni eu hymrwymïad i greu rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy.

67. Rydym yn croesawu ymrwymïad Llywodraeth Cymru i sefydlu gwasanaeth cynghori annibynnol a dibynadwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd am gael caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, rydym yn credu bod angen eglurder ynghylch y gofynion o ran cyllid, adnoddau a sgiliau.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd sy'n briodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys sut y bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chymunedau i liniaru'r heriau o ddod o hyd i dir addas ar gyfer llety safleoedd i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ac awdurdodau lleol unigol i ddatblygu rhwydwaith o ddarpariaeth ddarfodol, a sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau cynnydd.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trefniadau ar gyfer gwasanaeth cynghori annibynnol a dibynadwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys gofynion cyllido, adnoddau a sgiliau.

3. Fframwaith ar gyfer darparu safleoedd awdurdodau lleol

68. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn ystyried bod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol sy'n ymwneud â darparu safleoedd yn gadarnhaol. Er enghraifft, dywedodd Teithio Ymlaen eu bod yn gryf ac yn egwyddorol,⁵⁶ a dywedodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru fod gan Lywodraeth Cymru enw da, o leiaf wrth geisio cyflwyno deddfwriaeth a pholisiau sy'n gadarnhaol.⁵⁷

69. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gawsom yn amlygu rhwystredigaeth ynghylch gweithredu a chyflawni'r fframwaith, ac o ganlyniad, prinder llety addas ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

70. Clywsom fod teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cwestiynu a yw'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd yn werth y papur y mae wedi'i ysgrifennu arno am nad ydynt yn gweld canlyniadau gweithredu'r ddyletswydd honno.⁵⁸ Dywedodd Cynghrair Hil Cymru wrthym y gallai Cymru wir fod wedi arwain y ffordd o ran darparu safleoedd preswyl a thramwy, ond yn hytrach, mae aelodau o'r cymunedau yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi eu methu.⁵⁹

71. Rhoddodd Teithio Ymlaen gipolwg i ni o'r sefyllfa:

"I think it was back in 2010 that there was an estimate by Welsh Government that there was a shortfall of at least 100 pitches across Wales. The estimates remain the same. So, in terms of Gypsy and Traveller communities who want to live in culturally appropriate accommodation, the picture is characterised by many, many families living, potentially, on sites doubling up with family members because there hasn't been enough site provision, with long waiting lists, and people living in bricks and mortar, in housing, who have had to leave living on sites or leave travelling and move into houses and who would really wish to return to a more culturally nomadic way of life, living in small family groups with family on sites and in other situations, but are just really unable to do so."⁶⁰

72. Yn ôl Martin Gallagher:

⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 136], 18 Mai 2022

⁵⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 116], 18 Mai 2022

⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 18 Mai 2022

⁵⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 9 Mehefin 2022

⁶⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 11], 18 Mai 2022

"Wales [...] leads with the policy and with the diversity and with equality and the emphasis on culture and tradition, but at a local level, it feels like the memo's been missed. I don't want to slander it, but it feels like that local level hasn't caught up yet, and it's rotting the structure of what Welsh Government want to do, and until that's addressed, until that accountability is taken seriously, none of this will improve."⁶¹

Atebolrwydd

73. Cawsom dystiolaeth i awgrymu nad yw'n ymddangos "bod agwedd gyson a rhagweithiol" at weithredu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau gan awdurdodau lleol.⁶² Yn ôl Martin Gallagher, nid oes yr un awdurdod lleol wedi llwyddo i wneud yr hyn y mae'r fframwaith yn bwriadu ei wneud.⁶³

74. Dywedodd y Comisiynydd Plant fod y "diffyg cynnydd gan awdurdodau lleol yn dangos bod angen mwy o atebolrwydd, ac i gynnydd awdurdodau lleol gael ei fonitro."⁶⁴

75. Cytunodd Sipsiwn a Theithwyr Cymru, gan ddweud mai methiant mwyaf y ddeddfwriaeth yw nad yw awdurdodau lleol yn cael eu dwyn i gyfrif, pan na fyddant yn diwallu'r anghenion ac yn bodloni'r dyletswyddau fel y'u nodir.⁶⁵ Pwysleisiodd yr Athro Jo Richardson:

"... you've got the framework for delivery but [...] there's not that loop at the end that's being looked at, so there's no sanction [...] What's the result of that? The most marginalised in our communities seem to suffer [...] So, there needs to be some way of local authorities, housing providers holding themselves to account and knowing that there is that check and balance so that there is that move through legislation, through policy, into practice, and some kind of follow-up from that."⁶⁶

76. Dywedodd BASW Cymru wrthym: "Welsh Government has failed to place accountability on those local authorities, who have a statutory duty to provide for that assessed need".⁶⁷ Tynnodd Teithio Ymlaen sylw at yr angen i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod yn bwysig nad yw'r pethau hyn wedi digwydd.⁶⁸

⁶¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 69], 18 Mai 2022

⁶² [GRT.02.Comisiynydd Plant Cymru](#)

⁶³ Cofnod y Trafodion [paragraff 25], 18 Mai 2022

⁶⁴ [GRT.02.Comisiynydd Plant Cymru](#)

⁶⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 18 Mai 2022

⁶⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 20], 18 Mai 2022

⁶⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 9 Mehefin 2022

⁶⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 136], 18 Mai 2022

77. Hefyd, teimlai Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys fod angen mwy o atebolrwydd o ran darpariaeth awdurdodau lleol, yn hytrach na disgwyl i'r heddlu gymryd rhan:

*"It is more in relation to the implementation of the current legislation that's in place that perhaps needs a little bit more scrutiny. The holding to account of local authorities in relation to having available sites would be one thing, perhaps, that could be suggested."*⁶⁹

78. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Tai Pawb nad oes unrhyw fonitro i sicrhau bod canllawiau'n cael eu gweithredu'n briodol ac yn gyson ledled Cymru. Gwnaethant alw am ddyletswydd gliriach ar awdurdodau lleol i ffurfioli a monitro trefniadau.⁷⁰

79. Awgrymodd Garden Court Chambers y gellid cyflwyno pwerau llymach i Weinidogion Cymru, gan gynnwys cosbau ariannol i ymdrin â thorri dyletswydd o dan adran 103 o'r Ddeddf Tai. Gwnaethant awgrymu hefyd y dylid gwneud y graddau y mae'r awdurdod lleol y lleolir y safle ynddo yn cydymffurfio neu'n torri adran 103 yn ystriaeth statudol berthnasol i benderfyniadau gorfodi neu benderfyniadau cynllunio perthnasol ynghylch safleoedd.⁷¹

80. Dywedodd y Gweinidog fod y fframwaith deddfwriaethol a pholisi yn "gadarn"⁷² ac ers Deddf 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu awdurdodau lleol i adeiladu 63 o leiniau newydd ac adnewyddu llawer mwy.⁷³ O ran gorfodi, dywedodd fod gan Lywodraeth Cymru yr ysgogiadau angenrheidiol drwy'r deddfwriaeth a'r canllawiau statudol i ddwyn awdurdodau lleol i gyfrif. Dywedodd:

*"We haven't used those powers yet, but I'm ready to use them, particularly [...] as we've now got an even bigger push in terms of the anti-racist action plan. But also, local development plans are another route in terms of a lever, because when they're adopted, there is an annual monitoring report [...] and you can monitor Gypsy and Traveller sites delivery. But it is actually back to the local authorities."*⁷⁴

81. Er iddo ddweud bod Llywodraeth Cymru yn barod i ddefnyddio ei phwerau cyfarwyddo, dywedodd y Gweinidog y byddai'n rhaid iddynt ystyried yn ofalus cyn gwneud hynny am eu bod yn gweithio ar y cyd, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol. Cydnabu'r Gweinidog fod

⁶⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 9 Mehefin 2022

⁷⁰ [GRT.05.Tai.Pawb](#)

⁷¹ [GRT.03.Garden.Court.Chambers](#)

⁷² Cofnod y Trafodion [paragraff 7], 22 Mehefin 2022

⁷³ Cofnod y Trafodion [paragraff 30], 22 Mehefin 2022

⁷⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 16]. 22 Mehefin 2022

awdurdodau lleol wedi cael anawsterau wrth geisio dod o hyd i safleoedd sy'n ddiwylliannol briodol. Dywedodd y canlynol:

*"So, we need to take into account what the issues are, what the barriers are to providing the appropriate accommodation. Clearly, that power of direction is there, and you may find that we will have to use this. We're just about to [...] look at the latest assessment, and that assessment will show us whether there is a will and, clearly, a commitment to deliver on statutory duties in terms of the Gypsy, Roma and Traveller sites [...]. So, I have no hesitation in saying that we will use those powers of direction if that is deemed to be appropriate. Obviously, we'll be advised as well whether that is appropriate in terms of use of direction, because it is a very strong power. But also, in a sense, what we want is for local authorities to respond positively and do what they're supposed to do under the law."*⁷⁵

82. Nododd Cyngor Sir Ynys Môn bod yr "heriau a wynebir gan Awdurdodau Lleol yn gallu'i gwneud hi'n anodd darparu safleoedd sy'n cwrdd â gofynion cymunedau Sipsiwn, Roma, Teithwyr a'r gymuned gyfan".⁷⁶ Yn yr un modd, nododd Cyngor Caerdydd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

*"Progress in developing additional accommodation has been impacted by the challenge of finding suitable sites, acquiring the land and gaining planning permission."*⁷⁷

83. Gwnaethon nhw alw ar Lywodraeth Cymru i roi arweiniad mwy egniol.

84. Awgrymodd CLILC y gallai fod lle i gyflwyno ychydig o hyblygrwydd o ran rhai o'r gofynion ar gyfer safleoedd, ond y prif beth i'w wella yw trefniadau sy'n ymwneud â chyflawni'r fframwaith polisi a deddfwriaeth. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

*"...there are capacity issues within local authorities, especially in the planning division, where extra resource there and extra training for those staff in implementing the framework would be helpful."*⁷⁸

⁷⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 22], 22 Mehefin 2022

⁷⁶ [GRT.07.Cyngor.Sir.Ynys.Môn](#)

⁷⁷ [GRT.10.Cyngor.Caerdydd](#)

⁷⁸ Cofnod y Trafodion [259], 9 Mehefin 2022

85. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn symud pethau ymlaen gyda Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.⁷⁹ Yn ôl y Gweinidog:

*"we've got everything: we've got the legislation, we've got the guidance, we've got powers of direction, and we've now got this strengthened way forward, a clear way forward, with the anti-racist action plan."*⁸⁰

Adolygiad o'r fframwaith

86. Nid oedd llawer o awydd am adolygiad llawn o'r fframwaith, ond cafwyd awgrymiadau o ran sut y gellid ei ddiwygio. Awgrymodd Garden Court Chambers:

*"the Welsh Government lay down in statute that in any relevant planning decision a conflict with development plan policy is outweighed by breach of the s103 duty whilst it persists (the relevant time), unless to allow residential use as a Travellers site in that location, would cause unacceptable damage to interests of acknowledged importance that could not be tolerated for the relevant time. Such a provision may incentivise compliance with the s103 duty, particularly if authorities wish to more easily defend their decisions on appeal."*⁸¹

87. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am ganllawiau wedi'u diweddarau yn y dystiolaeth a gafwyd. Dywedodd Teithio Ymlaen wrthym fod darnau o ganllawiau sydd heb eu diweddarau ers blynyddoedd maith:

*"They were positive at the time, but they really need updating. So, there is the managing sites guidance, there's also the designing Gypsy and Traveller sites guidance and there's also the managing unauthorised encampments guidance, which desperately needs updating now the police Bill has come in.."*⁸²

88. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ailddrafftio'r canllawiau ar safleoedd ac adolygu ei chanllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn hanfodol bwysig bod anghenion dylunio a lleoliad cymunedau yn cael eu hadlewyrchu'n well wrth fwrw ymlaen â'r polisi.⁸³

⁷⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 8], 22 Mehefin 2022

⁸⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 22 Mehefin 2022

⁸¹ [GRT.03 Garden Court Chambers](#)

⁸² Cofnod y Trafodion [paragraff 88], 18 Mai 2022

⁸³ Cofnod y Trafodion [paragraff 33], 22 Mehefin 2022

89. Mae tystiolaeth ysgrifenedig gan Tai Pawb yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Bapur Gwyn ar yr hawl i dai digonol a rheolaethau rhent fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu. Maent yn credu y dylai'r hawl gyffredinol i dai digonol sy'n cynnwys tai sy'n ddiwylliannol briodol (gan gynnwys ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr) gael ei hymgorffori mewn deddfwriaeth yng Nghymru. Maent yn awgrymu y byddai gwneud hynny'n darparu fframwaith ar gyfer ateb mwy cynaliadwy i ddarparu safleoedd tramwy a phreswyl priodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.⁸⁴

Ein barn ni

90. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu fframwaith deddfwriaethol a pholisi cadarn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen mwy o frys i gyflawni nodau'r fframwaith hwnnw, a sicrhau bod darpariaeth ar gael ledled Cymru. Mae deddfwriaeth wedi bod ar waith ers bron i ddegawd, ond mae'n ymddangos nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran darparu llety a safleoedd addas ar gyfer y rhai sydd fwyaf ar yr ymylon yn ein cymunedau.

91. Rydym yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn methu â chymryd cyfrifoldeb am ei rôl o ran sicrhau cynnydd mewn maes y mae wedi ymrwymo i'w wella, a'i bod yn ymddangos ei bod yn dweud mai awdurdodau lleol yn unig sy'n gyfrifol am y diffyg cynnydd. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i fonitro cynnydd a dwyn awdurdodau lleol i gyfrif. Rydym yn gwerthfawrogi'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran darparu safleoedd sy'n diwallu anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Felly, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau a'r cyfarwyddyd angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

92. Mae trefniadau monitro effeithiol a chadarn yn hanfodol os ydym am sicrhau cynnydd digonol o ran darparu safleoedd ledled Cymru. Felly, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn tynhau ei threfniadau monitro ac yn dwyn awdurdodau lleol i gyfrif os nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau statudol.

93. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn barod i ddefnyddio ei phwerau i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol lle mae methiant i gydymffurfio â'r dyletswyddau a osodwyd arnynt yn amlwg. Byddwn yn monitro gyda diddordeb a yw Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau hynny lle bo angen. Byddem yn gwerthfawrogi mwy o eglurder ynghylch sut a phryd y gellid eu defnyddio.

⁸⁴ GRT.05.Tai.Pawb

94. Rydym yn croesawu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol newydd Llywodraeth Cymru yn fawr. Fodd bynnag, mae gennym amheuon ynghylch ei effeithiolrwydd o ran darparu mwy o safleoedd. Rydym yn parhau i fod yn argyhoeddedig mai mesurau monitro ac atebolrwydd effeithiol yw'r allwedd i sicrhau bod digon o safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru, sy'n briodol i'w hanghenion. Fodd bynnag, byddwn yn dilyn datblygiadau gyda diddordeb drwy gydol y Senedd hon a byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am effaith y Cynllun Gweithredu ar ddarparu mwy o safleoedd yng Nghymru. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr amserlenni ar gyfer y camau gweithredu yn y cynllun sydd eisoes ar y gweill.

95. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ailddrafftio'r canllawiau ar safleoedd er mwyn sicrhau bod anghenion dylunio a lleoliad cymunedau yn cael eu hadlewyrchu'n well. Rydym yn annog gwneud hyn drwy ymgynghori, yn gynnar, ag aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried diweddarau pob darn o ganllawiau statudol ac anstatudol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai.

Argymhelliad 5. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Ddeddf Tai yn effeithiol o ran darparu safleoedd addas ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Felly, dylai nodi sut y mae'n bwriadu tynhau'r modd y mae'n monitro gweithrediad y Ddeddf.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut a phryd y bydd yn defnyddio ei phwerau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer gwerthuso pa mor effeithiol yw Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o ran helpu i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer y camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sydd eisoes ar y gweill.

Argymhelliad 9. Wrth adolygu'r canllawiau ar safleoedd, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn sicrhau bod anghenion dylunio a lleoliad cymunedau yn cael eu hadlewyrchu'n well yn y canllawiau.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r holl ganllawiau sy'n ymwneud â darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

4. Ewyllys wleidyddol

96. Roedd diffyg ewyllys wleidyddol yn thema a gododd dro ar ôl tro drwy gydol ein hymchwiliad, yn enwedig o ran eiriolaeth a hyrwyddo anghenion llety a materion ehangach i'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

97. Awgrymodd BASW Cymru mai agweddau negyddol tuag at Sipsiwn sydd y tu ôl i'r diffyg ewyllys wleidyddol:

*"That is the key ingredient to the lack of any progress made in relation to ensuring that there are culturally appropriate, permanent sites and that there are culturally appropriate transit sites in Wales. We have incidences in Wales of councils and of elected members who use discriminatory and hate speech in relation to Gypsies and Travellers when a site is proposed in their locality. This cannot be acceptable. We have [...] the legislation in Wales, we have the policy frameworks in Wales, we have the race equality Wales action plan [...] We want to achieve an anti-racist Wales by 2030. This will never happen until we face up to and we tackle systemic anti-Gypsyism in Wales, let alone the rest of the UK."*⁸⁵

98. Soniodd Martin Gallagher hefyd am yr hiliaeth a'r gwahaniaethu sefydliadol sy'n digwydd. Dywedodd y canlynol:

*"I've delivered training to different political parties that are on these planning boards, and they've flat out told me to my face directly that they couldn't support GRT people in any campaigns, because they would lose their voters. The only thing that one person stated that they would do was to put a little notice in their newsletter to balance the narrative. These people have the say on whether a person's private site gets puts through, and it's really disparaging."*⁸⁶

99. Dywedodd Teithio Ymlaen wrthym fod y diffyg ewyllys wleidyddol i fynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn golygu'r canlynol:

⁸⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 16], 9 Mehefin 2022

⁸⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 18 Mai 2022

"It's being swept under the carpet, and, actually, some of the things that have gone on locally and regionally would not be acceptable if that was about any other group, or any other group of citizens or any other ethnic minority."⁸⁷

100. Ategwyd y farn hon gan y Comisiynydd Plant, a nododd fod y diffyg cynnydd yn awgrymu diffyg ewyllys wleidyddol i ddarparu llety addas a digonol.⁸⁸ Yn ôl yr Athro Jo Richardson, mae ewyllys wleidyddol amlwg ac arweinyddiaeth o'r canol yn allweddol i sicrhau mwy o safleoedd.⁸⁹

101. Dywedodd CLILC wrthym nad oeddent yn ymwybodol o ddiffyg arweinyddiaeth wleidyddol.⁹⁰ Fodd bynnag, gwnaethant dynnu sylw at yr heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu o ran dod o hyd i safleoedd a'u darparu, gan gydnabod y canlynol:

"there is a need for that challenge of misconceptions, the wrong information, the stereotypes that do lead to discrimination, which do lead to people responding to the proposal of sites in a negative way, rather than seeing it through enhancing and enriching local communities. So, there is certainly not the lack of political will, which I know people do talk about, but there are challenges within delivering this."⁹¹

102. Mae'r Comisiynydd Plant yn credu bod angen gwneud rhagor "i daclo'r rhagfarn sy'n bodoli mewn awdurdodau lleol ac ar lefel gymunedol, i atal camwahaniaethu mewn prosesau gwneud penderfyniadau". Dywedodd:

"Mae rheoli tensiynau cymunedol yn tynnu sylw oddi wrth ddyletswydd awdurdodau lleol i roi sylw i anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'u gallu i weithio'n effeithiol gydag aelodau o'r cymunedau hynny i ganfod a datblygu lleoliadau safle."⁹²

103. Ategwyd y farn hon gan Gyngor Caerdydd:

"There is a need to address the discriminatory behaviours and prejudice towards the Gypsy, Roma and Traveller community rather than solely focussing on ensuring the community are conducting themselves

⁸⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 136], 18 Mai 2022

⁸⁸ [GRT.02.Comisiynydd.Plant.Cymru](#)

⁸⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 13], 9 Mehefin 2022

⁹⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 294], 9 Mehefin 2022

⁹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 296], 9 Mehefin 2022

⁹² [GRT.02.Comisiynydd.Plant.Cymru](#)

*appropriately. The community can be subject to local hostility, negative media coverage and violence.*⁹³

104. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd Bettina Hayles, aelod o'r gymuned Teithwyr Newydd, y dylid sefydlu grwpiau llywio sy'n cynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac y dylai fod personél perthnasol ym mhob awdurdod lleol.⁹⁴

105. Roedd galwadau am fwy o hyfforddiant i aelodau etholedig, gyda BASW Cymru yn nodi bod angen i gynghorwyr gael hyfforddiant ar frys ac y dylai hyfforddiant gael ei gyd-gynhyrchu gyda'r gymuned, er mwyn pontio'r bwch camddealltwriaeth.⁹⁵ Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd yn cydnabod yr angen am "staff gwybodus y mae'r gymuned yn ymddiried ynddynt".⁹⁶

106. Yn ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu, dros y ddwy flynedd nesaf, cymorth dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

107. Croesawodd CLILC yr ymrwymiad hwn, ond gwnaethant nodi ei fod yn debygol y bydd angen ei gyflymu dros ddwy flynedd.⁹⁷ Aeth ymlaen i ddweud:

*"There's quite a lot of ambition in the plan, but you'll all be aware we've had local elections just over a month ago, and around 44 per cent of councillors are newly elected, so will need to get up to speed with being a councillor and the challenges that provides, but also the complexities of the planning process, particularly for those members who will be members of planning committees, and also the wider issues around the planning agenda as well. We're obviously talking about the Gypsy, Roma, Traveller provisions here, so our view is it's very much welcome that the Welsh Government's committed to providing this package of training, but perhaps that needs to be introduced sooner than the two-year time frame."*⁹⁸

108. Dywedodd Tai Pawb wrthym eu bod yn cefnogi'n llawn yr angen am hyfforddiant ac addysg sy'n ymwneud â gwrth-hiliaeth a dealltwriaeth ddiwylliannol, fodd bynnag, nodwyd mai drwy weithredoedd yn hytrach na geiriau y mae'n rhaid mesur y teimladau hyn. Maent o'r farn ei bod yn hanfodol bod y Cynllun Gweithredu'n cael ei ariannu'n llawn a bod ystod eang o

⁹³ [GRT 10 Cyngor Caerdydd](#)

⁹⁴ [GRT 13 Bettina Hayles](#)

⁹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 76], 9 Mehefin 2022

⁹⁶ [GRT 08 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful](#)

⁹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 268], 9 Mehefin 2022

⁹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 269], 9 Mehefin 2022

randdeiliaid yn rhan o'r broses o'i weithredu. Maent hefyd yn galw am fframwaith i fonitro cynnydd a chaniatáu ar gyfer craffu ac atebolrwydd.⁹⁹

109. Mae'r dystiolaeth a gafwyd hefyd yn awgrymu bod angen i hyfforddiant ddigwydd ledled Cymru, nid dim ond i swyddogion cynghorau lleol.¹⁰⁰

110. Ategwyd y farn hon gan yr Athro Jo Richardson, a ddywedodd ei fod yn ymwneud nid yn unig ag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn siarad mwy ag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ond ei fod yn ymwneud â phob un ohonom. Dywedodd hefyd fod addysg yn hollbwysig i newid y naratif yn y cyfryngau am gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, sy'n tueddu i fod am wersylloedd neu niwsans yn rhywle, yn honedig o ganlyniad i safle, neu am wrthwynebu darparu cartrefi i grŵp o bobl.¹⁰¹

111. Dywedodd Bettina Hayles, aelod o'r gymuned Teithwyr Newydd:

*"we need education and awareness as to understand the rich culture and many positive aspects of GRT and nomadic lifestyles – we need to change the narrative and highlight what needs to be addressed before we can move forwards."*¹⁰²

112. Croesawodd BASW Cymru y ffaith bod cyfleoedd i ddysgu hanesion Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm newydd i Gymru:

*"That's going to be really important in ensuring that children don't leave school with those deeply ingrained stereotypes and biases against Gypsies and Travellers, and ensuring that the community is part of informing the content of that curriculum, again, is vital."*¹⁰³

113. Ategwyd hyn gan CLILC:

"...there is a real key issue for schools here as well, around the work that will happen around the anti-racist action plan within schools and being able to celebrate diversity in a much broader way across our society. So, if we can get it right with children, they will grow up with much more open and

⁹⁹ [GRT.05.Tai.Pawb](#)

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 76], 9 Mehefin 2022

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 115], 9 Mehefin 2022

¹⁰² [GRT.13.Bettina.Hayles](#)

¹⁰³ Cofnod y Trafodion [paragraff 27], 9 Mehefin 2022

welcoming views of people with different backgrounds to themselves and just different life experiences."¹⁰⁴

114. Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys fod cyfle i gomisiynwyr heddlu a throseddu gefnogi'r heddlu o safbwynt gweithredol i sicrhau bod yr holl bartion dan sylw, gan gynnwys y gymuned ehangach, yn deall materion a chyfrifoldebau amrywiol gwahanol asiantaethau o dan y fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy'n ymwneud â darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.¹⁰⁵

115. Dywedodd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent wrthym fod arnom angen dealltwriaeth ar y cyd o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i geisio lleihau'r rhagfarn. Dywedodd:

"...the surrounding residential community don't understand the legislation, don't understand clearly the entitlements of the Gypsy, Roma and Traveller community, and the fact then that there aren't sites available in Wales actually causes more division and confusion.

*So, I think we've got a lot of work to do in terms of building relationships and supporting the Gypsy, Roma and Traveller community, and sharing their story with the broader community".*¹⁰⁶

Ein barn ni

116. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi cymorth dysgu a datblygu i aelodau etholedig awdurdodau lleol ynghylch diwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr drwy Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu na fydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu ledled Cymru, o ystyried bod y Cynllun Gweithredu yn bwriadu "darparu hyfforddiant mewn nifer darged o awdurdodau lleol" fel allbwn. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog egluro a fydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i bob awdurdod lleol ac, os na fydd hyn yn digwydd, rhesymau Llywodraeth Cymru dros dargedu rhai awdurdodau lleol yn unig.

117. Nid yw'n gwbl amlwg o'r Cynllun Gweithredu sut y caiff y rhaglen waith hon ei hariannu, lefel yr adnoddau sydd eu hangen, a sut y caiff ei ddarparu o fewn yr amserlen gyda chyfraniad gan lu o bartneriaid. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn gwybod a fydd yr hyfforddiant yn ddewisol neu'n ofyniad statudol.

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 357], 9 Mehefin 2022

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 151], 9 Mehefin 2022

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion [164-5], 9 Mehefin 2022

118. At hynny, mae gennym amheumon ynghylch effaith hyfforddiant o'r fath, ac a fydd unrhyw beth yn newid o ganlyniad iddo. Felly, byddem yn gofyn i Lywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu gwerthuso ei heffaith a sut y gall hyfforddiant newid agweddau, ymddygiadau ac unrhyw ragfarnau a allai fodoli o fewn ein sefydliadau cyhoeddus tuag at Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

119. Byddem hefyd yn awgrymu bod y Gweinidog yn ystyried ymestyn yr hyfforddiant hwn i gynghorwyr cymuned o ystyried eu rôl o ran ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn y broses gynllunio. At hynny, byddem yn annog aelodau etholedig awdurdodau lleol a chynghorwyr cymuned i gynnal ymweliadau safle er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u diwylliant yn ogystal â'u hanghenion llety.

120. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r ffaith bod dysgu am dreftadaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth ethnig Cymru a'r byd ehangach yn elfen orfodol o'r cwricwlwm newydd. Gobeithiwn o hyn allan y bydd pob plentyn yn cael cyfle i archwilio hanes a diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ffordd gadarnhaol a chefnogol. Fodd bynnag, credwn fod gwaith i'w wneud nid yn unig mewn ysgolion a llywodraeth leol, ond yn y gymuned ehangach hefyd, i fynd i'r afael â rhagfarn ac i godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ac anghenion diwylliannol Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y cymorth dysgu a datblygu a fydd yn cael ei roi i aelodau etholedig awdurdodau lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dylai hyn gynnwys manylion am: pwy fydd yn cael yr hyfforddiant; amserlenni; sut y caiff ei ariannu a'i ddarparu; ac a fydd yn ofyniad statudol i ymgymryd â'r hyfforddiant.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu gwerthuso'r effaith y bydd yr hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig awdurdodau lleol yn ei chael ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cynghorwyr cymuned yn yr ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddarparu hyfforddiant i aelodau etholedig awdurdodau lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau, ar wahân i'r rhai yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol, y bydd yn eu cymryd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y gymuned ehangach o ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

5. Asesiadau Ilety

121. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf Tai yn gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi Asesiadau Ilety Sipsiwn a Theithwyr gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Caiff y rhain eu hadolygu bob pum mlynedd. Oherwydd effaith y coronafeirws, cafodd y cyfnod adolygu diweddaraf a fyddai wedi dod i ben ar 24 Chwefror 2021 ei ymestyn am flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r asesiadau hyn.

122. Mae'r broses yn galluogi awdurdodau lleol i asesu lefel y ddarpariaeth Ilety ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr sy'n ofynnol fel rhan o'u cynlluniau datblygu lleol. At hynny, mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol lunio adroddiad monitro blynyddol. Yr adroddiad yw'r prif fecanwaith ar gyfer adolygu i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion a nodir yng nghynllun datblygu lleol yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys materion yn y cynllun sy'n ymwneud â safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

123. Cafwyd amrywiaeth o dystiolaeth ynglŷn â'r broses asesu anghenion Ilety, gyda rhanddeiliaid yn nodi bod y broses yn cael ei hystyried yn rhywbeth sydd ar wahân i asesiadau tai eraill, ac felly'n gwneud anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn rhywbeth cyhoeddus iawn. Yn ôl Teithio Ymlaen, mae'r broses yn arwain yn syth at wrthwynebiadau gelyniaethus ac ymgyrchu gan bobl leol eraill yn erbyn unrhyw fath o safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.¹⁰⁷

124. Fel y dywedodd CLILC wrthym, mae amrywiaeth o safbwyntiau gan awdurdodau lleol ynglŷn â gwerth ac effeithiolrwydd¹⁰⁸ asesiadau Ilety. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fod asesiadau Ilety yn:

"sylfaen dystiolaeth allweddol i awdurdodau cynllunio lleol asesu lefel y ddarpariaeth Ilety ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr sy'n ofynnol wrth baratoi eu cynlluniau datblygu."¹⁰⁹

125. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod y broses ei hun yn eithaf costus, a bod angen defnyddio ymgyngorwyr am gost uchel. Fodd bynnag, nodir:

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 75], 18 Mai 2022

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 318], 9 Mehefin 2022

¹⁰⁹ GRT.06.Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

*"Gyda'r cyswllt cywir gellid casglu'r wybodaeth yn fwy llyfn trwy gydweithio gyda chymunedau a phreswylwyr. Yn hytrach na chael ei gwneud bob pum mlynedd gellid gwneud yr asesiad yn debyg i'r cyfri carafanau ar-lein."*¹¹⁰

126. Yn ôl CLILC, mae gwerth y broses yn dibynnu ar ansawdd y data a gesglir a pharodrwydd grwpiau i gymryd rhan:

*"Quite often, that will be down to the quality of the relationships at the local level, as to whether or not there's a sense of trust and willingness to engage and put the information in."*¹¹¹

127. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu mai anaml y mae gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael ei wneud, a bod y gwaith ymgynghori yn aml yn cael ei wneud ar gam hwyr yn y broses pan fydd safleoedd eisoes wedi'u nodi. Dywedodd Teithio Ymlaen wrthym nad oes gan eu cleientiaid unrhyw ffydd yn y broses a bod llawer wedi gwrthod cymryd rhan.¹¹²

128. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn nodi yn ei gyflwyniad ysgrifenedig:

*"Mae'n her fawr yn dal i fod i ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu'n ystyrlon â grwpiau anodd eu cyrraedd ar faterion sydd o bwys mawr iddynt fel mater o drefn ar adeg pan fo mwy o ddylanwad ar y canlyniadau posibl yn y cynllun datblygu. Mae'n her a fydd yn gofyn am adnoddau ychwanegol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol neu leol."*¹¹³

129. O ran asesiadau llety, ac ymgysylltu'n fwy eang â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mae BASW Cymru o'r farn bod 'gwrando, ond nid clywed'.¹¹⁴ Galwodd BASW Cymru hefyd am gynnal asesiadau dros gyfnod hwy, gan nad yw unrhyw beth a wneir yn rhy gyflym yn dueddol o fod yn gadarn,¹¹⁵ ac o ganlyniad nid yw'n sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl gan gymunedau a dealltwriaeth o'u hanghenion.

130. Roedd yr Athro Richardson hefyd o'r farn bod lle i wella'r broses, gan nodi bod angen ymgysylltu go iawn â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gael asesiad cywir o'u hanghenion llety.¹¹⁶

¹¹⁰ [GRT 08 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful](#)

¹¹¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 318], 9 Mehefin 2022

¹¹² Cofnod y Trafodion [paragraff 112], 18 Mai 2022

¹¹³ [GRT 06 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#)

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 58], 9 Mehefin 2022

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 9 Mehefin 2022

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 67], 9 Mehefin 2022

131. Dywedodd Teithio Ymlaen y dylai gweithio gyda chymunedau i ddod o hyd i safleoedd a deall eu hanghenion fod yn broses barhaus. Fodd bynnag, awgrymwyd mai'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw bod llawer o awdurdodau lleol ond yn rhoi sylw i'r mater ar yr adeg pan fo angen cyflwyno asesiadau llety.

"...there's a lack of understanding and commitment, or care, about using this process to actually deliver tangible benefits for Gypsy and Traveller communities. [...] whilst it's really important to have robust guidance that local authorities have to follow, what we're seeing is that people are following that but missing out the really core elements that actually make it successful, and therefore it fails."¹¹⁷

132. Gwnaethant alw am "newid go iawn" yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr ynglŷn â'u hanghenion llety.¹¹⁸

133. Gwnaeth BASW Cymru gwestiynu'r sylfaen wybodaeth sydd gan gontractwyr a gyflogir gan awdurdodau lleol i gynnal yr asesiadau:

"do they understand deeply the needs of this community? Have they had training in understanding and challenging their own unconscious and conscious bias in relation to the communities that they're undertaking assessments of?"¹¹⁹

134. Er bod CLILC yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys safbwyntiau a dewisiadau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y broses asesu, gwnaethant dynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddilyn cyfraith a chanllawiau cynllunio, sy'n darparu bod yn rhaid cydbwysu'r ffactorau hynny â ffactorau fel faint o dir sydd ar gael, cynaliadwyedd safleoedd, a yw'r broses gynllunio'n debyg o lwyddo, ac yn y blaen.¹²⁰

135. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol yn nodi y dylai awdurdodau lleol gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth iddynt ystyried darparu safleoedd a chynnal asesiadau llety. Dywedodd y canlynol:

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 74], 18 Mai 2022

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 85], 18 Mai 2022

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 70], 9 Mehefin 2022

¹²⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 276], 9 Mehefin 2022

*"I think our anti-racist action plan measures and actions will be a real push for local authorities to do this differently, and that at every point we would expect engagement with Gypsy, Roma, Travellers."*¹²¹

136. Tynnodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sylw at y manteision o gydweithio i baratoi asesiadau llety, gan nodi y gallai:

*"helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o batrymau teithio ac anghenion llety ar draws awdurdodau lleol. Gallai hyn arwain at ddull cyffredin a chysondeb ar draws yr ardal o ran nodi angen a dyrannu safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mewn cynlluniau datblygu. Gall gweithio ar draws rhanbarth hefyd arwain at arbedion cost a gwella'r data sydd ar gael i asesu angen."*¹²²

137. Yn yr un modd, galwodd CLILC am drosolwg cenedlaethol mewn perthynas ag asesiadau llety. Nodwyd bod y broses yn cael ei chynnal ar lefel leol ac nad yw'n glir a oes dadansoddiad o'r asesiad hwnnw o anghenion ar lefel genedlaethol y gellir ei gymharu wedyn â'r ddarpariaeth sydd ar gael.¹²³

138. Ategwyd y farn hon gan Brif Gwnstabl Heddlu Gwent a ddywedodd nad yw'r asesiadau ar gyfer awdurdodau unigol yn unig; yn hytrach, dylid edrych arnynt gyda'i gilydd, yn rhanbarthol ac ar draws Cymru, o ran safleoedd priodol.¹²⁴ Galwodd ar Lywodraeth Cymru i roi arweiniad o ran y dull rhanbarthol hwnnw o asesu anghenion.¹²⁵

139. Ar wahân i'r angen i ymgysylltu a chydlynu'n well ar sail ranbarthol a chenedlaethol, roedd rhai'n cwestiynu a oes digon yn cael ei wneud i werthuso effaith yr asesiadau presennol. Nododd Tai Pawb y canlynol yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

*"Despite the requirement for five yearly accommodation assessments overall data on how much progress has been made does not appear to have been collected following the introduction of the 2014 duty."*¹²⁶

140. Ategwyd hyn gan Teithio Ymlaen a ddywedodd nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r cylch diweddaraf o asesiadau llety i adolygu a myfyrio ynghylch a ydynt wedi diwallu'r angen blaenorol.¹²⁷

¹²¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 22 Mehefin 2022

¹²² GRT 06 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

¹²³ Cofnod y Trafodion [paragraff 283], 9 Mehefin 2022

¹²⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 139], 9 Mehefin 2022

¹²⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 228], 9 Mehefin 2022

¹²⁶ [GRT 05 Tai Pawb](#)

¹²⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 76], 18 Mai 2022

141. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r cylch presennol o asesiadau llety, a fydd, yn ôl y Gweinidog, yn amlgyu'r rhwystrau o ran dod o hyd i'r safleoedd hynny.¹²⁸

Ein barn ni

142. Clywsom dystiolaeth amrywiol am werth ac effeithiolrwydd asesiadau llety. Cawsom dystiolaeth anecdotaidd nad yw llawer o awdurdodau lleol ond yn rhoi sylw i anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar yr adeg y disgwylir iddynt gyflwyno adroddiad gydag asesiad. Clywsom hefyd fod yr asesiadau'n gostus i'w cynnal ac y dylid cynnwys mwy o hyblygrwydd yn y system.

143. Rydym felly'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ai dyma'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety. Clywsom alwadau am broses asesu barhaus, yn hytrach nag adolygiad bob pum mlynedd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellid gwasanaethu cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn well gydag asesiadau parhaus o'u hanghenion yn hytrach na'r system bresennol o gynnal adolygiad bob pum mlynedd.

144. Rydym yn pryderu nad yw'r broses bresennol yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu ystyrllon â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'n destun pryder mawr nad oes ganddynt fawr o ffydd yn y broses a'u bod yn aml yn gwrthod cymryd rhan. Er mwyn cael dealltwriaeth glir a chywir o anghenion llety, rhaid ymgysylltu'n uniongyrchol â Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

145. Rydym yn derbyn bod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol, fel y dywedodd y Gweinidog wrthym, yn nodi y dylai awdurdodau lleol gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth iddynt ystyried darparu safleoedd a chynnal asesiadau llety. Nodwn hefyd fod y Gweinidog yn credu y bydd mwy fyth o ymdrech i wneud hyn drwy'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol newydd. Fodd bynnag, teimlwn y gellid gwneud mwy i sicrhau gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ystyrllon. Felly, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu sut y gellir gwella gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y broses o gynnal asesiadau llety.

146. Rydym hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru werthuso effeithiolrwydd y mesurau a'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol o ran gwella gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

147. Nid yw'n glir i ni i ba raddau y caiff asesiadau llety eu hystyried gyda'i gilydd, ar sail Cymru gyfan. Mae gan rai Sipsiwn, Roma a Theithwyr ffordd nomadaidd o fyw, ac mae angen

¹²⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 8], 22 Mehefin 2022

adlewyrchu hyn yn y broses. Ni ddylai asesiadau llety fod yn fater i awdurdodau lleol unigol yn unig – mae angen i ni edrych ar y darlun ledled Cymru. Rydym felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro sut mae'n rhoi trosolwg cenedlaethol o ran asesiadau llety.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ai'r broses bresennol ar gyfer Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yw'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o asesu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu sut y gellir gwella gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y broses o gynnal asesiadau llety, gan gynnwys i ba raddau y mae'r mesurau a'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol wedi gwneud gwahaniaeth.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa broses sydd ar waith i fonitro'r Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar sail Cymru gyfan er mwyn cael dealltwriaeth o'r anghenion llety ar lefel genedlaethol yn ogystal ag ar lefel leol.

6. Ariannu

148. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu tua £3.5 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol ar gyfer adnewyddu'r safleoedd presennol ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr a datblygu rhai newydd.

149. Nid oedd yn glir yn y dystiolaeth a gafwyd i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r Grant Cyfalaf Safleoedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, er enghraifft, yn nodi yn ei gyflwyniad ei fod wedi cael £500,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022 i adnewyddu'r 24 bloc cyfleusterau ar ei safle Glynmil.¹²⁹ Fodd bynnag, wrth ymgysylltu ag aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, clywsom a gwelsom fod angen gwaith cynnal a chadw neu adnewyddu ar rai safleoedd awdurdodau lleol ar frys.

150. Er enghraifft, cawsom y dystiolaeth a ganlyn gan breswlydd ar safle awdurdod lleol:

"My Utility block has no storage, cupboards have been screwed together, there is no room for a cooker, it is damp and paint is falling off the ceiling, the floor floods everyday so I can't store anything in it the council can not find where the leak is, I only live in a caravan, my baby's toys have to [be] stored in there including high chair and bouncer, I have to clean the mildew off them daily. Heater not working but even if it was it is too expensive to run, my floor is uneven so when it floods it floods in pools. I asked the council to fix my bath panel they came with a small piece of wood to just fix the hole, I want to live in a place that is not just quickly fixed, if it was fixed properly in the first place they wouldn't have to do it again. I asked when I moved in if I could have my utility block painted they said that was my job, I also asked if I could have my worktops fixed as they were hanging off the wall, they had been there as long as I known, I was also told that they would not do this."¹³⁰

151. Awgrymodd Teithio Ymlaen fod cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cael ei 'danwario' ar y cyfan.¹³¹

152. Dywedodd aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrthym na wnaeth unrhyw un ymgynghori â hwy ynglŷn â sut y caiff y grant ei wario. Er enghraifft, eglurodd un cyfrannwr ei fod yn aml yn cael ei wario ar faterion nad oes angen mynd i'r afael â hwy, fel gwaith

¹²⁹ [GRT 08 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful](#)

¹³⁰ [Gohebiaeth gan Teithio Ymlaen, 27 Mehefin 2022](#)

¹³¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 87], 18 Mai 2022

diweddar i roi wyneb newydd ar ffordd, yr oedd y cyfrannwr yn teimlo ei fod yn ddiangen pan oedd angen uwchraddio pethau eraill. Galwodd cyfranwyr am ymgynghori ystyrlon ynghylch adnewyddu safleoedd a datblygu rhai newydd.

153. Eglurodd Teithio Ymlaen wrthym nad yw lletyau Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd yn cael eu hariannu yn yr un modd na'u rheoli a chefnogi yn yr un modd â thai cymdeithasol eraill, ac nad oes proses arolygu tebyg i'r broses ar gyfer tai cymdeithasol.¹³² Dywedodd Teithio Ymlaen y canlynol:

*"It's really down to us supporting residents to make complaints to a residential property tribunal or to the local authority about everything, from minor repairs to some of these huge issues around being built next to motorways, needing better air quality, safe routes to school, those sorts of things. So, some way of looking at giving Gypsy and Traveller accommodation some parity and equality with the standards that are expected of any citizen's accommodation is really important."*¹³³

154. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Caerdydd hefyd yn nodi y dylai mynediad at gyllid i ddarparu llety i Sipsiwn, Roma a Theithwyr fod yn unol â'r cyllid ar gyfer mathau eraill o dai cymdeithasol. Mae'n nodi na ellir defnyddio'r cynllun grant cyfalaf presennol ar gyfer unrhyw faterion sy'n ymwneud â phrynu tir ar gyfer safleoedd. Mae hefyd yn nodi bod costau sylweddol o ran chwiliadau cynllunio, amgylcheddol a llifogydd y mae angen eu gwneud cyn y gellir cyflwyno cais, ac os caiff cynllun ei ganslo, mai'r awdurdod sy'n talu'r gost.¹³⁴ Ategwyd hyn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a alwodd am gyllid gan Lywodraeth Cymru i alluogi awdurdodau lleol i adennill y costau hynny.¹³⁵

155. Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn nodi y dylai cyllid ar gyfer llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr gael ei gadw o fewn y Cyfrif Refeniw Tai, ac y byddai hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i gynghorau. Mae hefyd yn nodi y gellid ystyried bod atal y defnydd o'r grant tai cymdeithasol ar gyfer llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn enghraifft o wahaniaethu.¹³⁶

156. Roedd Teithio Ymlaen hefyd yn gwneud cymariaethau â'r grantiau tai cymdeithasol ac yn awgrymu bod ffyrdd mwy creadigol o ddefnyddio'r grant safleoedd i gefnogi teuluoedd i ddiwallu eu hanghenion eu hunain yn uniongyrchol. Dywedodd Teithio Ymlaen y canlynol:

¹³² Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 18 Mai 2022

¹³³ Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 18 Mai 2022

¹³⁴ [GRT 10 Cyngor Caerdydd](#)

¹³⁵ Cofnod y Trafodion [paragraff 315], 9 Mehefin 2022

¹³⁶ [GRT 10 Cyngor Caerdydd](#)

"Like any other community, some people can afford to buy their own house, and some people can't, but there are other schemes run by housing associations and so forth for bricks and mortar. But, actually, can we we look at using that grant more successfully as grants or loans or helping lease land direct to families, almost taking local authorities out of it? They might provide some of the support and the assistance."¹³⁷

157. Yn ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

"Adolygu'r polisi cyllido presennol ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ac asesu ei effeithiolrwydd, gyda'r bwriad o dreialu dulliau ychwanegol neu newydd o gyllido safleoedd, gan gynnwys cymorth i safleoedd preifat."

158. Dywedodd y Gweinidog wrthym:

"we're going to look at, for example, possible capital requirement for mobile home rental pilots. That's something that, again, has come to our attention as being something that would be welcomed."¹³⁸

Ein barn ni

159. Roeddem yn siomedig o glywed nad yw'r grant Safleoedd Cyfalaf bob amser yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n diwallu anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Credwn yn gryf y dylid ymgynghori â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ffordd ystyrlon ar gam cynnar ynghylch adnewyddu a datblygu safleoedd. Wedi'r cyfan, cartrefi pobl yw'r rhain, a dylent fod wrth wraidd unrhyw drafodaethau am welliannau ar safleoedd.

160. Clywsom alwadau am i gyllid ar gyfer darparu llety i Sipsiwn, Roma a Theithwyr gael ei gadw o fewn y Cyfrif Refeniw Tai os bydd awdurdodau lleol yn dewis gwneud hynny. Gallai hyn gynnig mwy o hyblygrwydd a chyfle i rannu adnoddau o ganlyniad. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd a oedd yn awgrymu y gellid ystyried bod atal defnydd o'r Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer lletyau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn enghraifft o wahaniaethu. Gallai ailddosbarthu rhent o safle awdurdod lleol yn uniongyrchol i gyllideb tai wedi'i neilltuo helpu i sicrhau safleoedd o ansawdd uchel sy'n fwy addas.

161. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu a threialu ffyrdd ychwanegol neu newydd o ariannu darpariaeth barhaol, a gofynnwn i'r Gweinidog ystyried fel

¹³⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 87], 18 Mai 2022

¹³⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 57]. 22 Mehefin 2022

rhan o'r adolygiad a ddylai cyllid ar gyfer anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr gael ei gadw o fewn y Cyfrif Refeniw Tai.

162. Rydym hefyd yn argymhell, fel rhan o'r adolygiad, y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad ehangach o sut mae gwaith i ariannu a datblygu safleoedd yn ymwneud â'i gilydd. Er enghraifft, efallai yr hoffai'r Gweinidog ystyried a ddylai fod cymhellion ariannol i awdurdodau lleol ddatblygu safleoedd sy'n diwallu anghenion a blaenoriaethau penodol, a allai yn ei dro helpu i godi safonau.

163. Yn ei hadolygiad o'r polisi ariannu presennol, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i archwilio pob llwybr posibl. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, a ddylid ehangu'r meini prawf ar gyfer y grant Cyfalaf Safleoedd er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol brynu tir ar gyfer datblygu safleoedd newydd i Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dylai cymorth i deuluoedd sydd am ddatblygu safleoedd preifat hefyd fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a byddem yn disgwyl i'r adolygiad o bolisi ariannu gynnwys materion o'r fath.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ehangach o sut mae'r cyllid ar gyfer datblygu safleoedd yn ymwneud â'r gofynion o ran safonau safleoedd.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob opsiwn posibl ar gyfer ariannu anghenion llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys a ddylid ehangu'r meini prawf ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd er mwyn i awdurdodau lleol allu prynu tir ar gyfer datblygu safleoedd newydd a sut y gellid defnyddio cyllid i gefnogi datblygiad safleoedd preifat.

7. Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

164. Thema gref yn y dystiolaeth a gawsom oedd pryder am Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf yn gwneud tresmasu'n drosedd. Mae hefyd yn rhoi mwy o bwerau i'r heddlu i fynd i'r afael â gwerylloedd diawdurdod, gan ganiatáu iddynt atafaelu cerbydau lle nad yw'r rhai y gofynnwyd iddynt adael yn gwneud hynny.

165. Disgrifiodd Tai Pawb y Ddeddf fel un o'r bygythiadau mwyaf difrifol i hawliau sifil mewn hanes diweddar,¹³⁹ a dywedodd BASW Cymru wrthym fod aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gofidio llawer¹⁴⁰.

166. Lleisiodd Comisiynydd Plant Cymru bryderon y gallai gwneud tresmasu'n drosedd "orfodi teuluoedd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol a gofal, a gadael teuluoedd yn ddigartref trwy fynd â'u cerbydau".¹⁴¹

167. Mae'r Athro Richardson yn credu bod y gyfraith yn troseddoli ffordd o fyw, ac nad oes unrhyw liniaru ar ddeddfwriaeth anghyfartal o ansawdd gwael. Aeth ymlaen i ddweud:

*"The only way to start to think about this in a humane way is to ensure that sufficient sites are available, is to think about common land in a different way."*¹⁴²

168. Tynnwys sylw at argaeledd safleoedd fel problem wrth geisio lliniaru effeithiau'r Ddeddf. Dywedodd Teithio Ymlaen y canlynol wrthym:

*"Gypsy and Traveller families travelling within or through Wales will have no other option than to encamp on land that doesn't belong to them. People just see that as a further nail in the coffin of the lack of care and respect for the Gypsy and Traveller nomadic, hundreds-of-years-old traditions."*¹⁴³

169. Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhannu pryderon o'r fath hefyd, gan nodi y gallai'r pwerau newydd hyn gael effaith ddifrifol ar grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd eisoes yn wynebu prinder safleoedd awdurdodedig.¹⁴⁴ Mae Tai Pawb yn nodi bod y

¹³⁹ [GRT 05 Tai Pawb](#)

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 98], 9 Mehefin 2022

¹⁴¹ [GRT 02 Comisiynydd Plant Cymru](#)

¹⁴² Cofnod y Trafodion [paragraff 105], 9 Mehefin 2022

¹⁴³ Cofnod y Trafodion [paragraff 113], 18 Mai 2022

¹⁴⁴ [GRT 04 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)

Ddeddf yn taflu goleuni ar broblem tymor hwy, bod y fframwaith a'r polisiau presennol wedi methu â darparu'r anghenion llety sydd eu hangen ar y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.¹⁴⁵

170. Nododd y Comisiynydd Plant hefyd y gallai diffyg gweithredu, yn enwedig ar safleoedd tramwy, ynghyd â'r ddarpariaeth yn y Ddeddf waethygu'r anghydraddoldeb sydd eisoes yn bodoli, gan wthio Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymhellach i'r cyrion a'u troseddoli.¹⁴⁶

171. Dywedodd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent wrthym, os yw'r pwerau yn y Ddeddf yn mynd i gael eu defnyddio, y bydd angen safleoedd priodol fel y gellir cyfeirio cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr at y safleoedd hynny. Dywedodd y canlynol:

*"if we give a direction for a community to move on, where exactly do we send them? And if we haven't got an appropriate site available, it means that, in essence, we are making that community homeless. So, we do need to balance all of those needs, and we do need for those sites to be available in order for us to use the legislation appropriately."*¹⁴⁷

172. Awgrymodd CLILC efallai y bydd angen cyflymu'r amserlenni ar gyfer cynigion Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy yng ngogledd a de Cymru, o ystyried bod y Bil wedi dod i rym erbyn hyn.¹⁴⁸

173. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyngor Sir Caerfyrddin efallai na fydd unrhyw broblemau ychwanegol:

*"Wales should continue to provide additional pitches in response to identified need, and to deal sensitively but firmly with unauthorised encampments. It is the responsibility of local authorities and the police service to continue to respond appropriately, and not to invoke the criminal law when it is not necessary to do so."*¹⁴⁹

174. Rhoddodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru sicrwydd i ni y byddai'r pwerau newydd a'r ddeddfwriaeth newydd ond yn cael eu defnyddio yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol mewn gwirionedd.¹⁵⁰ Yn yr un modd, dywedodd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent mai dim ond pan fyddai popeth arall y methu y byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio; yn hytrach, pan fydd

¹⁴⁵ [GRT 05 Tai Pawb](#)

¹⁴⁶ [GRT 02 Comisiynydd Plant Cymru](#)

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion [paragraff 133], 9 Mehefin 2022

¹⁴⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 335], 9 Mehefin 2022

¹⁴⁹ [GRT 09 Cyngor Sir Gâr](#)

¹⁵⁰ Cofnod y Trafodion [paragraff 207], 9 Mehefin 2022

gwersylloedd anghyfreithlon, dylid defnyddio ymateb amlasiantaethol effeithiol. Dywedodd y canlynol:

*"we would far rather consult with communities, landlords and of course the Gypsy, Roma and Traveller community, and work through what we can do to move that encampment on to a legal footing."*¹⁵¹

175. Ategwyd y farn hon gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a ddywedodd y bydd yr effaith ar sut y caiff gwersylloedd anghyfreithlon eu plismona yn ymarferol yn un gyfyngedig:

*"the approach will always be that engaging, educating, both the community in the wider sense, as well as those who are on the specific encampment, in relation to the legislation. Because, very often, when these illegal encampments arrive at a location, the community themselves aren't necessarily aware of what the legislative framework around that is. So, that education is really important. And then that dialogue between the community and those who are part of the encampment is really, really important."*¹⁵²

176. Ni waeth sut y caiff y Ddeddf ei gorfodi, mae rhai tystion yn nodi na fu unrhyw gyfathrebu nac ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol na'r heddlu gyda Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dywedodd Martin Gallagher y canlynol:

*"I think it's really important that people know what this policy entails, how it affects their lives and what they can face if the police exercise these new powers on them."*¹⁵³

177. Dywedodd BASW Cymru wrthym y gallai fod effaith bellach ar lefelau tlodi os yw'r ddeddfwriaeth droseddol newydd hon yn effeithio'n negyddol ar aelodau o'r cymunedau hyn, o ystyried y dirwyon o hyd at £2,500.¹⁵⁴ Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyngor Caerdydd y canlynol:

"The sale of vehicles and trailers to pay fines may be seen as disproportionate, given that unauthorised encampments stem from a lack of suitable temporary and permanent accommodation options. This would have

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion [paragraff 204], 9 Mehefin 2022

¹⁵² Cofnod y Trafodion [paragraff 210], 9 Mehefin 2022

¹⁵³ Cofnod y Trafodion [paragraff 118], 18 Mai 2022

¹⁵⁴ Cofnod y Trafodion [paragraff 92], 9 Mehefin 2022

a huge impact on individuals being able to earn money to provide for their families."¹⁵⁵

178. Cyfeiriodd CLILC at y ffaith na fydd atafaelu cerbydau a chartrefi ond yn creu pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill fel gwasanaethau i bobl ddigartref.¹⁵⁶

179. Roedd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â gweryslyoedd diawdurdod. Mewn datganiad ysgrifenedig ar 7 Mehefin 2022, disgrifiodd y Gweinidog y darpariaethau hyn fel rhai sy'n tanseilio ac yn peryglu ffordd draddodiadol o fyw Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r datganiad yn mynd ymlaen i ddweud:

*"Mae dull Llywodraeth Cymru o reoli gweryslyoedd diawdurdod wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau a buddsoddi ar gyfer darpariaeth ddigonol o safleoedd awdurdodedig a galluogi awdurdodau lleol i fodloni gofynion llety (preswyl a chlodiant) cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r maes gwaith hwn yn cael blaenoriaeth unwaith eto yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, sy'n cynnwys nod penodol ar fynd i'r afael yn well ag anghenion llety'r cymunedau hyn."*¹⁵⁷

180. Pleidleisiodd y Senedd ar **18 Ionawr** a **1 Mawrth** i beidio â rhoi cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gweryslyoedd diawdurdod.

181. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y ddeddfwriaeth yn ddiangen a'i bod wedi cael yr effaith o droseddoli cymuned sy'n cael ei gwerthfawrogi fel rhan o'n bywyd ac amrywiaeth yng Nghymru.¹⁵⁸ Dywedodd wrthym hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r dull blaengar y mae'r heddlu yng Nghymru yn ei ddefnyddio mewn perthynas â'r Ddeddf i liniaru ei darpariaethau.¹⁵⁹

182. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog yn nodi'r canlynol:

*"Mae gwaith yn cael ei wneud i ddeall yn fanwl y gwahaniaeth y bydd y mesurau newydd yn ei wneud yng Nghymru, y diffygion presennol o ran y safleoedd tramwy sydd ar gael i aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain, a datblygiadau plismona cenedlaethol mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd."*¹⁶⁰

¹⁵⁵ [GRT 10 Cyngor Caerdydd](#)

¹⁵⁶ Cofnod y Trafodion [paragraff 338], 9 Mehefin 2022

¹⁵⁷ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#) 7 Mehefin 2022

¹⁵⁸ Cofnod y Trafodion [paragraff 83], 22 Mehefin 2022

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion [paragraff 75], 2 Mehefin 2022

¹⁶⁰ [Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Papur 1, 22 Mehefin 2022](#)

Ein barn ni

183. Rydym yn pryderu y gallai'r Ddeddf Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd wthio cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymhellach i'r cyrion. Rydym yn croesawu'r dystiolaeth a gafodd cynrychiolwyr gan yr heddlu a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu mai dim ond fel dewis olaf y bydd y pwerau newydd yn cael eu defnyddio, ac y bydd ymateb amlasiantaethol i fynd i'r afael â gwersylloedd diawdurdod.

184. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd y bydd y dull blaengar o orfodi'r Ddeddf hefyd yn dibynnu ar allu symud gwersylloedd diawdurdod i safleoedd tramwy neu fannau aros awdurdodedig. Rydym yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i greu rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy erbyn 2025. Fodd bynnag, o gofio mai dim ond dwy lain tramwy sydd yng Nghymru ar hyn o bryd a bod y Ddeddf eisoes mewn grym, rydym yn argymhell y dylai'r amserlen ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad hwn yn cael ei chyflymu.

185. Er ein bod yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o orfodi'r Ddeddf, rydym yn pryderu nad yw'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ymwybodol o sut y caiff ei phlisma. Clywsom fod pobl sydd â ffyrdd nomadaidd o fyw yn ofni'r ddeddfwriaeth newydd a sut y gallai hyn effeithio arnynt. Credwn felly y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r cymunedau ynghylch sut y caiff y Ddeddf ei gorfodi yng Nghymru i geisio lleddfu unrhyw ofnau.

186. Teimlai rhai Aelodau o'r Pwyllgor fod y Ddeddf hon yn atgyfnerthu'r ddadl y dylai plisma gael ei ddatganoli i Gymru, gan ddweud bod hon yn enghraifft o ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei gweithredu yng Nghymru er gwaethaf y ffaith nad yw'r Senedd wedi rhoi cydsyniad ar gyfer rhannau ohoni. Roedd dau aelod o'r pwyllgor, Joel James AS a Sam Rowlands AS, yn anghytuno â'r farn hon.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i ddarparu lleiniau tramwy ledled Cymru cyn toriad yr haf yn 2023.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gyda'r heddlu a sefydliadau partner i gyfathrebu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr am unrhyw newidiadau a ragwelir i gynlluniau i orfodi Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yng Nghymru.

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
18 Mai 2022	<p>Trudy Aspinwall, Rheolwr Tîm, Teithio Ymlaen: Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr</p> <p>Assia Kayoueche, Swyddog Cyfathrebu, Ymgyrchoedd ac Aelodaeth, Cynghrair Hil Cymru</p> <p>Jasmine Jones, Gypsies and Travellers Wales</p> <p>Martin Gallagher, Actifydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ysgrifennwr ac ymchwilydd academaidd</p>
9 Mehefin 2022	<p>Yr Athro Jo Richardson, Deon Cyswllt Ymchwil ac Arloesedd / Athro ym maes Tai ac Ymchwil Gymdeithasol, Prifysgol De Montfort</p> <p>Allison Hulmes, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, BASW Cymru</p> <p>Prif Gwnstabl Carl Foulkes, Heddlu Gogledd Cymru</p> <p>Prif Gwnstabl Pam Kelly, Heddlu Gwent</p> <p>Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Heddlu Dyfed-Powys</p> <p>Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p> <p>Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p>

Dyddiad	Enw a sefydliad
	Daniel Hurford, Pennaeth Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
22 Mehefin 2022	Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Chrishan Kamalan, Pennaeth Polisi Hil a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Llywodraeth Cymru James Searle, Pennaeth y Tîm Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
GRT 01	Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru
GRT 02	Comisiynydd Plant Cymru
GRT 03	Garden Court Chambers
GRT 04	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
GRT 05	Tai Pawb
GRT 06	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
GRT 07	Cyngor Sir Ynys Môn
GRT 08	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
GRT 09	Cyngor Sir Gâr
GRT 10	Cyngor Caerdydd
GRT 11	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
GRT 12	Rhiannon Craft
GRT 13	Bettina Hayles

Gwybodaeth Ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Gypsies and Travellers Wales a Teithio Ymlaen	29 Mai 2022
Teithio Ymlaen	27 Mehefin 2022